Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

## Cynorthwyo ysgolion i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

www.cymru.gov.uk



## Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013
Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2013

# Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

**Cynulleidfa** Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru; awdurdodau lleol Cymru a chonsortia addysg rhanbarthol; undebau; sefydliadau amrywiol sydd â diddordeb mewn llythrennedd a rhifedd; ac aelodau'r cyhoedd.

**Trosolwg** Mae'r ddogfen wybodaeth hon yn ddogfen ategol sy'n helpu ysgolion yng Nghymru i weithredu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh).

**Camau i'w cymryd** Dim – er gwybodaeth yn unig.

**Rhagor o wybodaeth** Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Ysgol
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 5447
e-bost: is-adrancwricwlwm@cymru.gsi.gov.uk

**Copïau ychwanegol** Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn unig yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

**Dogfennau cysylltiedig** *Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Rhaglen Rhifedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2* (Estyn, 2011); *Y Framwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012); *Ar Drywydd Dysgu map llwybrau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006); *Asesu cynnydd mathemategol plant 5–14 oed mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012); *Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008); *Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010); *Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010).

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

ISBN digidol 978 0 7504 9267 4
© Hawlfraint y Goron 2013
WG18281

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Pwrpas, amcanion a nodweddion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)** 4
Amcanion allweddol 4
Nodweddion allweddol 4

**Gweithredu a chefnogi'r FfLlRh** 6
Canllawiau a deunyddiau hyfforddi 6
Rhaglen gymorth genedlaethol (RhGG) 6
Amserlen 6

**Y cwricwlwm cenedlaethol** 7
Perthynas y FfLlRh â'r cwricwlwm cyfan 7
Y FfLlRh ac adolygu'r cwricwlwm ac asesu 7

**Am y FfLlRh** 8
Strwythur y FfLlRh 8
Cefnogi dilyniant i bob dysgwr 9
Y FfLlRh yn y Cyfnod Sylfaen 9
Y FfLlRh mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg 10
Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) 11
Dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol 11
Dysgwyr â llythrennedd deuol 12

**Asesu yn erbyn y FfLlRh** 13

**Y FfLlRh a'r profion cenedlaethol** 15

**Trosolwg o gydran llythrennedd y FfLlRh** 16
Y cysylltiad â'r cwricwlwm 16
Dilyniant mewn llythrennedd 16
Llinynnau llythrennedd 17

**Trosolwg o gydran rhifedd y FfLlRh** 20
Y cysylltiad â'r cwricwlwm 20
Dilyniant mewn rhifedd 20
Llinynnau rhifedd 21

**Atodiad 1: Rhestr o dermau llythrennedd (i gyd-fynd â'r gydran llythrennedd cyfrwng Cymraeg)** 24

**Atodiad 2: Rhestr o dermau llythrennedd (i gyd-fynd â'r gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg)** 35

**Atodiad 3: Rhestr o dermau rhifedd** 46

**Atodiad 4: Dogfennau a dolenni cysylltiedig** 50

# Cyflwyniad

Mae'r Gweinidog dros Addysg a Sgiliau wedi gwneud codi safonau llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaeth mewn ysgolion. Yn ei brif anerchiad 'Codi Safonau Ysgolion' a draddodwyd ar 29 Mehefin 2011 i'r Sefydliad Materion Cymraeg, cyhoeddodd ei fwriad i gyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) newydd i bob dysgwr 5 i 14 oed.

Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hollbwysig er mwyn i bobl ifanc allu cyflawni eu potensial os ydynt am fynd i'r sector addysg bellach neu uwch neu ymuno â'r farchnad waith. Mae'r Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol a'r Rhaglen Rhifedd Genedlaethol yn amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cymryd i wella safonau llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Mae'r cynlluniau ar gyfer fframwaith cenedlaethol statudol a system o brofion cenedlaethol yn ganolog i'r ddwy raglen.

Mae'r FfLlRh wedi cael ei ddatblygu i helpu i gyflawni ein nod, sef bod plant Cymru yn gallu datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r cwricwlwm cenedlaethol presennol a gyflwynwyd yn 2008 yn ceisio cydblethu datblygiad sgiliau trwy'r cwricwlwm cyfan, ac felly mae'n seiliedig ar y fframwaith anstatudol, sef *Fframwaith sgiliau i ddysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) sy'n rhoi sylw i ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Mae adroddiad Estyn *Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2*: *Arfarniad o effaith y Fframwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng Nghyfnod Allweddol 2* a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2011 ac adroddiad tebyg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ym Mai 2012 yn dangos na fu'r fframwaith sgiliau'n effeithiol. Bydd y FfLlRh yn disodli'r elfen cyfathrebu a rhif yn y fframwaith sgiliau anstatudol. **Bydd yn ofyniad cwricwlwm statudol o fis Medi 2013, gydag asesu yn erbyn y FfLlRh yn ofyniad statudol o fis Medi 2014.**

Mae'r FfLlRh yn seiliedig ar ymchwil i arferion addysgu, asesu, cofnodi ac adrodd effeithiol, a llwyddiant systemau rhyngwladol tebyg. Cafodd ei ddatblygu mewn partneriaeth â phanel cynghori Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) sy'n cynnwys cynghorwyr llythrennedd a rhifedd awdurdodau lleol. Ymgynghorwyd ar y FfLlRh rhwng **11 Mehefin a 12 Hydref 2012**. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad wedi llywio datblygiad fersiwn derfynol y FfLlRh.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
Mawrth 2013
Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013

Mae'r FfLlRh wedi cael ei ddatblygu'n offeryn cynllunio'r cwricwlwm i ysgolion a fydd yn darparu continwwm o ddatblygiad, gan amlinellu'n glir ddeilliannau disgwyliedig blynyddol mewn llythrennedd a rhifedd.

Fframwaith Llythrennedd
a Rhifedd Cenedlaethol

Mawrth 2013

Dogfen wybodaeth rhif:
120/2013

# Pwrpas, amcanion a nodweddion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

Yn bennaf oll mae'r FfLlRh yn offeryn cynllunio'r cwricwlwm sy'n helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd wrth addysgu'r cwricwlwm. Ein nod yw helpu athrawon i weld bod rôl bwysig ganddynt i'w chwarae o ran datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu dysgwyr. Mae trefniadau cynllunio'r cwricwlwm gan bob ysgol ar hyn o bryd a bydd rhaid addasu'r rhain i gefnogi cynllunio trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio'r FfLlRh. Er ein bod yn cydnabod y gall datblygu sgiliau i ddysgwyr iau yn arbennig fod yn fwy anghyson mae cynllunio trawsgwricwlaidd effeithiol ar gyfer sgiliau a fframwaith ar gyfer datblygiad parhaus yn bwysig i bob dysgwr.

## Amcanion allweddol

Amcanion allweddol y FfLlRh yw:

- helpu athrawon **pob** pwnc i adnabod a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, ac mae wedi'i rannu'n grwpiau blwyddyn
- disgrifio'n fanwl gywir y **disgwyliadau cenedlaethol blynyddol ar gyfer llythrennedd a rhifedd** i ddysgwyr 5–14, a dangosyddion dilyniant i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
- helpu i asesu **cynnydd dysgwyr** mewn llythrennedd a rhifedd a llunio adroddiadau blynyddol i rieni/ofalwyr yn seiliedig ar asesiadau athrawon fel bod athrawon, dysgwyr a rhieni/gofalwyr i gyd yn glir sut mae dysgwyr yn datblygu a beth yw eu camau nesaf. **Ni fydd data'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol**.

## Nodweddion allweddol

Mae nodweddion allweddol y FfLlRh yn cynnwys y canlynol.

- Drwy ddatganiadau o ddisgwyliadau, mae'r FfLlRh yn amlinellu'r sgiliau y disgwyliwn i ddysgwyr eu datblygu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, o 5 i 14 oed, ac mae wedi'i rannu'n grwpiau blwyddyn.
- Mae'r FfLlRh wedi'i rannu'n gydrannau ar gyfer llythrennedd a rhifedd, sydd yn eu tro wedi'u rhannu'n llinynnau.
- Y llinynnau llythrennedd yw: llafaredd ar draws y cwricwlwm, darllen ar draws y cwricwlwm ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.
- Y llinynnau rhifedd yw: datblygu ymresymu rhifyddol, defnyddio sgiliau rhif, defnyddio sgiliau mesur a defnyddio sgiliau data.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
Mawrth 2013
Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013

- Mae pob llinyn wedi'i rannu ymhellach yn elfennau, gyda llythrennedd wedi'i rannu'n agweddau hefyd.
- Mae'r gydran llythrennedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r disgwyliadau yr un fath yn Gymraeg ac yn Saesneg, gyda rhai elfennau gwahanol yn y gydran llythrennedd Cymraeg i adlewyrchu gofynion unigryw'r iaith Gymraeg.
- Yn ogystal â bod yn ofyniad cynllunio'r cwricwlwm, bydd y FfLlRh hefyd yn cael ei ddefnyddio gan athrawon ar gyfer asesu ffurfiannol.
- Caiff y FfLlRh ei ddefnyddio i lywio asesiadau athrawon o sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr a chaiff adroddiadau blynyddol eu llunio i rieni/ofalwyr. **Ni fydd data'n cael eu casglu ar lefel genedlaethol.**

# Gweithredu a chefnogi'r FfLlRh

Bydd y FfLlRh yn cael ei gefnogi gan ystod gynhwysfawr o ganllawiau ar-lein a deunyddiau hyfforddi a gan raglen gymorth genedlaethol.

## Canllawiau a deunyddiau hyfforddi

Mae cyfres o ddeunyddiau canllaw a hyfforddi yn cael eu datblygu i helpu ysgolion ac athrawon i weithredu'r FfLlRh – canllawiau ar gynllunio'r cwricwlwm, canllawiau asesu, deunyddiau hyfforddi a deunyddiau ystafell ddosbarth.

## Rhaglen gymorth genedlaethol (RhGG)

Mae rhaglen gymorth yn cael ei datblygu i ddarparu cymorth a hyfforddiant ymarferol i ysgolion ac athrawon ar weithredu'r FfLlRh. Mae hyn yn ychwanegol at y deunyddiau hyfforddi a'r canllawiau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd.

## Amserlen

1. **Ionawr 2013: cyhoeddi'r FfLlRh a'r dogfennau ategol.**
2. **Ionawr 2013: canllawiau cynllunio'r cwricwlwm a deunyddiau hyfforddi ar gael.**
3. **Tymor y gwanwyn 2013: rhaglen gymorth genedlaethol yn dechrau.**
4. **Medi 2013: cyflwyno'r FfLlRh yn statudol.**
5. **Medi 2013: canllawiau asesu a deunyddiau arferion ystafell ddosbarth ar gael.**
6. **Medi 2014: cyflwyno asesu statudol yn erbyn y FfLlRh.**

# Y cwricwlwm cenedlaethol

## Perthynas y FfLlRh â'r cwricwlwm cyfan

Mae'r FfLlRh yn offeryn cynllunio'r cwricwlwm sy'n adeiladu ar yr arferion da a welir heddiw mewn llawer o ysgolion. Mae'n ceisio cyflwyno ymagweddau cydlynol at ddatblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, gan ddangos i athrawon pob pwnc sut y gallant ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Felly, mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd fod yn wirioneddol drawsgwricwlaidd yn hytrach na chanolbwyntio ar wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg.

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol a weithredwyd o 2008 wedi cyflwyno ymagwedd seiliedig ar sgiliau at y cwricwlwm gan geisio sicrhau bod sgiliau'n cael eu datblygu ar draws y cwricwlwm. Mae wedi'i seilio ar y fframwaith sgiliau anstatudol sy'n rhoi sylw i sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif. Mae'r FfLlRh yn adeiladu ar y disgwyliadau a amlinellir yn y fframwaith sgiliau. Fodd bynnag, bydd yn ofyniad cwricwlaidd statudol o dan adran 108(9) o Ddeddf Addysg 2002. Bydd hefyd yn cynnig mwy o eglurder i athrawon er mwyn iddynt allu asesu ac olrhain dilyniant sgiliau. Bydd y FfLlRh yn disodli cydrannau cyfathrebu a rhif y fframwaith sgiliau anstatudol. Mae'r cydrannau sgiliau meddwl a TGCh yn parhau yn eu lle er mwyn cynnig arweiniad i ysgolion ar y sgiliau pwysig hyn, a chânt sylw ar wahân mewn canllawiau pellach.

## Y FfLlRh ac adolygu'r cwricwlwm ac asesu

Wrth ddatblygu'r FfLlRh bu'n rhaid i ni ystyried yn ofalus beth ddylai'r disgwyliadau priodol fod ar gyfer pob oedran ac ym mhob cyfnod allweddol. Yn ystod y broses hon mae cwestiynau wedi codi ynghylch gofynion y cwricwlwm presennol, yn arbennig mewn perthynas â Chymraeg, Saesneg a mathemateg, ac a yw'r lefelau cyrhaeddiad presennol yn y Gorchmynion pwnc yn ddigon trylwyr neu heriol. Mae'r disgwyliadau a amlinellir yn y FfLlRh yn ceisio codi'r safon mewn rhai achosion. Rydym wedi achub ar y cyfle i ail-alinio disgwyliadau er mwyn sicrhau bod ymagwedd drwyadl gennym at godi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn cyflawni eu potensial. Mae hyn yn golygu bod disgwyliadau'r FfLlRh ar gyfer diwedd Cyfnod Allweddol 2 yn agosach i Lefel 5, ac mae'r disgwyliadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn agosach i Lefel 6. Bydd yr adolygiad o'r trefniadau asesu a'r cwricwlwm yn edrych yn benodol ar hyn a chyfatebiaeth.

# Am y FfLlRh

## Strwythur y FfLlRh

Mae'r FfLlRh yn disgrifio'n fanwl y sgiliau rydym yn disgwyl i blant a phobl ifanc eu caffael a'u meistroli o 5 i 14 oed. Mae dwy gydran i'r fframwaith – llythrennedd a rhifedd. Fe'u rhennir yn llinynnau fel a ganlyn.

O fewn **llythrennedd** disgwyliwn i blant a phobl ifanc fod yn hyddysg mewn:

- llafaredd ar draws y cwricwlwm
- darllen ar draws y cwricwlwm
- ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

O fewn **rhifedd** disgwyliwn i blant a phobl ifanc fod yn hyddysg mewn:

- datblygu ymresymu rhifyddol
- defnyddio sgiliau rhif
- defnyddio sgiliau mesur
- defnyddio sgiliau data.

Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar ddysgwyr yn **caffael** ac yn gallu **cymhwyso'r** sgiliau a'r cysyniadau a ddysgwyd i gwblhau tasgau realistig sy'n briodol i'w cyfnod datblygiad. Bydd athrawon yn gallu defnyddio'r FfLlRh i:

- ddatblygu cynnwys y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod cyfle gan bob dysgwr i ddatblygu a mireinio'r sgiliau a amlinellir yn y FfLlRh
- integreiddio llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu – beth bynnag fo'r pwnc
- llywio trafodaethau â rhieni/gofalwyr, dysgwyr ac athrawon eraill am berfformiad dysgwyr
- helpu dysgwyr gyda'u gweithgareddau hunanasesu eu hunain a chynllunio ar gyfer dysgu
- monitro, asesu ac adrodd ar berfformiad dysgwyr unigol
- adnabod dysgwyr a allai gael budd o raglen ymyrraeth neu sy'n gweithio'r tu hwnt i'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Bydd dysgwyr a rhieni/gofalwyr yn elwa drwy gael dealltwriaeth gliriach o sgiliau llythrennedd a rhifedd a darlun gwell o anghenion dysgu a dilyniant a gynigir gan y FfLlRh.

## Cefnogi dilyniant i bob dysgwr

Mae darparu disgwyliadau i bob blwyddyn yn ei thro'n cynnig eglurder i gefnogi dilyniant. Mae'n rhoi dealltwriaeth glir i athrawon am yr hyn y mae disgwyl i blant fod wedi'i gyflawni a'r hyn y byddant yn ei ddysgu yn y dyfodol. Fodd bynnag, gwyddwn na fydd pob plentyn yn gwneud cynnydd yn yr un ffordd am amryw o resymau. Nid yw pob ysgol yn wynebu'r un heriau, gyda rhai ysgolion yn gwasanaethu ardaloedd difreintiedig iawn. Daw plant o gefndiroedd gwahanol, sy'n golygu eu bod yn gwneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol ac ar gyflymder gwahanol. Er enghraifft, mae gan ddysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg fel iaith ychwanegol heriau gwahanol o ran caffael iaith a llythrennedd. Er hynny, mae natur flynyddol y FfLlRh yn cynnig modd i athrawon sicrhau eu bod yn cynnwys y sgiliau priodol wrth addysgu'r cwricwlwm a'i gynnwys. Bydd athrawon, fel rhan o'r adroddiadau i rieni/ofalwyr, yn gallu rhoi datblygiad iaith dysgwyr a ffactorau eraill yn eu cyd-destun.

Mae'r FfLlRh hefyd yn galluogi athrawon i ystyried anghenion eu dysgwyr mwy galluog a thalentog. Mae'n golygu y gallant gynllunio ar gyfer datblygu sgiliau a chefnogi datblygu sgiliau pan fydd dysgwyr yn gwneud cynnydd cyflymach nag y gellid ei ddisgwyl fel arfer, a phan allai dysgwyr fanteisio ar gael eu hestyn neu eu herio ymhellach.

Mae gosod disgwyliadau i bob blwyddyn yn ei thro'n bwysig i bob dysgwr er mwyn cynnig eglurder ynghylch cynnydd dysgwyr a sicrhau bod y blociau adeiladu hanfodol i ddatblygu sgiliau yn eu lle i bob dysgwr.

## Y FfLlRh yn y Cyfnod Sylfaen

Fel y nodwyd yn 'Cefnogi dilyniant i bob dysgwr' uchod, cydnabyddwn na fydd pob plentyn yn gwneud cynnydd yn yr un ffordd, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos datblygiad plant yn y blynyddoedd cynnar sy'n gallu dilyn trywydd gwahanol. Mae natur flynyddol y FfLlRh yn golygu y gall athrawon sicrhau eu bod yn cynnwys y sgiliau priodol wrth addysgu'r cwricwlwm a'i gynnwys. I blant tair i bump oed, gall patrymau dysgu amrywio mwy ac felly mae'r FfLlRh yn cwmpasu dysgwyr 5–14. Fodd bynnag, yn ystod yr ymarfer ymgynghori, awgrymwyd y byddai'n werth estyn y FfLlRh i'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant tair i bump oed, a chaiff hyn ei ystyried.

## Y FfLlRh mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

Mae'r cydrannau llythrennedd o fewn y FfLlRh wedi cael eu datblygu er mwyn cael disgwyliadau tebyg yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae rhai agweddau unigryw yn y fersiwn Cymraeg sy'n adlewyrchu gofynion arbennig yr iaith Gymraeg ond, ar wahân i hynny, mae'r sgiliau i'w cymhwyso bron yn union yr un fath a gellir eu trosglwyddo o'r naill iaith i'r llall. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, Saesneg a dwyieithog yn canolbwyntio ar yr un sgiliau llythrennedd, beth bynnag yw prif iaith y ddarpariaeth.

Os yw nodweddion Cymraeg unigryw wedi cael eu nodi, mae'r rhain wedi cael eu cyfieithu i'r Saesneg a cheir arwyddbyst atynt yn y cydrannau Saesneg. Mae hyn yn gwneud disgwyliadau'r ddwy iaith yn dryloyw, sy'n arbennig o ddefnyddiol i athrawon sy'n cynllunio mewn lleoliadau dwyieithog, ac i rieni/ofalwyr Saesneg eu hiaith sy'n anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog.

Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg cydnabyddir y gall caffael sgiliau iaith a llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar ddilyn patrwm gwahanol. Bydd methodoleg trochi yn datblygu sgiliau Cymraeg plant ac erbyn Cyfnod Allweddol 2 bydd cyffelybiaeth gynyddol yn natblygiad sgiliau llythrennedd Cymraeg a Saesneg. O ganlyniad, yn y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 3, bydd rhaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio cydran llythrennedd Cymraeg y FfLlRh yn unig (ochr yn ochr â rhifedd). O Flwyddyn 4 ymlaen, disgwyliwn i ysgolion cyfrwng Cymraeg ddefnyddio'r cydrannau Cymraeg a Saesneg. Bydd hyn yn golygu y caiff y gydran llythrennedd Saesneg ei defnyddio pan gaiff Saesneg ei haddysgu, a bydd y gydran llythrennedd Cymraeg yn cael ei defnyddio ar draws y cwricwlwm cyfan. Gall ysgolion ddefnyddio'r gydran Saesneg hefyd yn y dosbarth Derbyn a Blynyddoedd 1–3 os dymunant.

Bydd y FfLlRh yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion cyfrwng Cymraeg i gynllunio'r cwricwlwm, gan sicrhau bod athrawon yn cynnwys sgiliau llythrennedd a rhifedd yn eu haddysgu, fel y disgrifir eisoes. Bydd athrawon, fel rhan o ddarparu asesiad naratif ac adroddiadau i rieni/ofalwyr, yn gallu rhoi datblygiad iaith dysgwyr yn ei gyd-destun, o ran cynnydd mewn llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn ogystal ag iaith y cartref.

## Dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Bydd y FfLlRh yn cynnwys pob dysgwr. Felly, rydym wedi llunio cyfres o ddisgwyliadau sy'n cynnwys pob dysgwr ac a fydd yn sicrhau bod y rhai sydd ag ADY wedi'u cynnwys ym mhob elfen. Mae dilyniant yn cael ei nodi o'r sgiliau rhagflaenol cynnar a ddisgrifir yn fanwl ym map llwybrau *Ar Drywydd Dysgu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006) (ar gael yn www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/routeslearning/?skip=1&lang=cy). Mae'r FfLlRh yn amlinellu sut y mae sgiliau dysgwyr yn cael eu mireinio a'u hestyn wrth iddynt symud tuag at y safonau disgwyliedig ar gyfer y dosbarth Derbyn. Ni fydd rhai elfennau sgiliau yn dod i'r amlwg tan gyfnod diweddarach yn y FfLlRh. Mewn achosion o'r fath, mae'r celloedd perthnasol yn y FfLlRh wedi'u lliwio'n llwyd i ddangos hyn.

Bydd athrawon, dysgwyr, rhieni a gofalwyr yn defnyddio'r datganiadau dilyniant hyn mewn ffyrdd tebyg i'r rhai a ddisgrifir uchod. Mae'r FfLlRh hefyd yn disgrifio continwwm o ddatblygiad a gall dysgwyr symud ymhellach neu'n gyflymach mewn rhai agweddau nag eraill, gyda chyflawniadau'n cwmpasu sawl blwyddyn. Gall hyn fod yn arbennig o gymwys i ddysgwyr sydd ag ADY, yn enwedig pan fydd anabledd yn atal cyflawni eitemau penodol. Yn achos dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai ysgolion gynnig mwy o her. Gall lefel yr anhawster gael ei chodi drwy estyn ehangder, dyfnder a chymhlethdod y tasgau.

## Dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol

Fel y nodwyd yn 'Cefnogi dilyniant i bob dysgwr' ar dudalen 9, cydnabyddwn na fydd pob dysgwr yn gwneud cynnydd yn yr un ffordd ac ar yr un cyflymder. Yn arbennig, cydnabyddwn fod gan **ddysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol** heriau gwahanol o ran caffael iaith a llythrennedd. Mae dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu hasesu yn erbyn model caffael iaith pum cam, a bydd hyn yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y FfLlRh. Bydd natur flynyddol y FfLlRh yn arwain ac yn cynnig modd i athrawon gynnwys y sgiliau priodol wrth addysgu'r cwricwlwm a'i gynnwys ar yr adeg iawn i ddysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Bydd athrawon, fel rhan o'r adroddiadau i rieni/ofalwyr, yn gallu rhoi datblygiad iaith dysgwyr yn ei gyd-destun.

Mae dysgwyr sydd â Chymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol yn debygol o ddod ar draws Cymraeg/Saesneg am y tro cyntaf ac felly bydd angen cymorth ychwanegol â ffocws arnynt i'w helpu i gaffael sgiliau llythrennedd priodol. Ar y dechrau gall dysgwyr arddangos sgiliau sydd yn llawer is na'u disgwyliadau oedran mewn rhai agweddau ar y cydrannau llythrennedd. Dylai athrawon benderfynu pryd bydd yn briodol i ddefnyddio'r FfLlRh yn sail ar gyfer asesu ffurfiannol i'r dysgwyr hynny ac ni ddylent ddefnyddio'r gydran Ar drywydd llythrennedd ar gyfer eu hasesu ffurfiannol. Fodd bynnag, rhagwelir gyda rhaglenni ymyrraeth priodol wedi'u targedu y dylai dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol weithio tuag at gyrraedd disgwyliadau'r FfLlRh.

## Dysgwyr â llythrennedd deuol

Un o elfennau hanfodol gwlad ddwyieithog yw'r gallu i symud yn rhwydd rhwng ieithoedd a bod yn gwbl ddwyieithog. Mae'r gallu hwn yn un a werthfawrogir nid yn unig oherwydd y bydd yn cynnig modd i bobl yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, gan agor y drysau i dreftadaeth ieithyddol eang ac amrywiol, ond hefyd oherwydd bod y sgìl yn rhoi mantais i ddysgwyr yng Nghymru mewn sgiliau llythrennedd a gellir datblygu hyn ymhellach a'i gymhwyso i ieithoedd Ewropeaidd a'r byd.

Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar yr ystod o sgiliau llythrennedd sydd eu hangen er mwyn sicrhau cymhwysedd yn Gymraeg a Saesneg. Er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd deuol lle y gall dysgwyr symud rhwng yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg, mae'n rhaid i ddysgwyr gael cyfleoedd dysgu penodol a fydd yn helpu i sicrhau meistrolaeth yn y ddwy iaith. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys cyflwyno sgyrsiau a deunyddiau yn y ddwy iaith i'r dysgwyr, gyda thasgau ystyrlon sy'n gofyn am sgiliau prawfddarllen ac ailddrafftio, gan arwain at synthesis, dadansoddi a chymhwyso syniadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau pwnc-benodol.

Mae'r FfLlRh yn cefnogi llythrennedd deuol, ac er mwyn sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori'n llawn o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru, bydd canllawiau a hyfforddiant ychwanegol yn cael eu datblygu.

## Asesu yn erbyn y FfLlRh

Offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh yn bennaf. Mae hefyd yn offeryn asesu sy'n llywio asesiadau athrawon. Bwriedir i asesu yn erbyn y FfLlRh gael ei ddefnyddio'n ffurfiannol gan ysgolion ac athrawon unigol i gefnogi cynnydd dysgwyr, cynllunio ystafell ddosbarth a chynllunio'r cwricwlwm. Bydd adroddiadau'n seiliedig ar asesu ar gyfer dysgu ar ffurf naratif, fel y gall cynnydd y dysgwyr fod yn hyblyg – ni fwriedir iddo fod yn ymagwedd 'cyd-fynd orau'. Bydd athrawon yn defnyddio'r FfLlRh i asesu:

- cynnydd unigol i fod yn sail i drafodaethau gwybodus â'r dysgwyr, rhieni/gofalwyr a rhwng athrawon am gryfderau cyfredol y dysgwyr a'r meysydd i'w datblygu
- cynnydd grŵp i lywio cynllunio'r cwricwlwm a datblygiad yr ysgol.

Bydd dilyniant drwy'r FfLlRh yn dangos sut y mae dysgwyr yn perfformio yn erbyn y disgwyliadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar ddiwedd pob blwyddyn academaidd.

**Ni fydd unrhyw ddata cenedlaethol yn cael eu casglu ar gyfer asesiadau yn erbyn y FfLlRh.** Ni ddisgwylir i athrawon, ac ni fyddai'n briodol i athrawon, ddefnyddio'r FfLlRh i lunio un datganiad sy'n dangos a yw dysgwr yn gweithio ar/yn uwch na/yn is na'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer ei oedran. Yn hytrach, dylid defnyddio'r FfLlRh ac asesu yn ei erbyn i helpu i ddisgrifio cynnydd dysgwr, meysydd o gryfder a'r camau nesaf ar gyfer datblygiad.

Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, mae'n rhaid i gynllunio ar gyfer asesu fod yn wirioneddol drawsgwricwlaidd yn hytrach na digwydd drwy wersi Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn unig. Bydd rhaid i ysgolion fodloni eu hunain fod systemau ysgol gyfan yn eu lle i gefnogi'r asesiad trawsgwricwlaidd o sgiliau llythrennedd a rhifedd. Bydd gofyn i ysgolion adrodd ar gynnydd unigol, cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn llythrennedd a rhifedd i rieni/ofalwyr yn flynyddol ac adrodd ar y cynnydd a'r safonau cyffredinol ar draws yr ysgol yn flynyddol. Disgwylir i'r adroddiadau hyn fod yn naratif o ran fformat.

Bydd asesiadau yn erbyn y FfLlRh yn cynhyrchu gwybodaeth werthfawr ynghylch patrymau perfformiad, cryfderau a meysydd o bryder. Bydd hyn yn ddefnyddiol i athrawon, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr a'r rhai sy'n cefnogi gwella ysgolion ar lefel leol neu ranbarthol.

O fis Medi 2014, bydd yn ofynnol i ysgolion gynnal asesiad ffurfiol yn erbyn y FfLlRh. Mae hyn yn golygu y bydd ganddynt flwyddyn academaidd lawn i ganolbwyntio ar ymgorffori'r FfLlRh i'w gwaith cynllunio cwricwlwm a'u haddysgu a'u dysgu cyn ei bod yn ofynnol iddynt asesu cynnydd dysgwyr yn ei erbyn.

Dylai ysgolion ddefnyddio'r FfLlRh o hyd i gefnogi eu gwaith Asesu ar gyfer Dysgu fel rhan o arfer addysgu da. Bydd hyn yn llywio adroddiadau i rieni/ofalwyr ar gynnydd eu plentyn mewn llythrennedd a rhifedd, y bydd yn ofynnol eu cyflwyno o hyd bob blwyddyn o fis Medi 2013. Dylai'r adroddiadau i rieni/ofalwyr gynnwys gwybodaeth sy'n seiliedig ar y profion rhifedd a darllen ac adroddiad naratif ar lythrennedd a rhifedd yn seiliedig ar y FfLlRh.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mawrth 2013

Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013

# Y FfLlRh a'r profion cenedlaethol

Yn ogystal â'r FfLlRh a'r asesiadau ffurfiannol, naratif yn ei erbyn, rydym yn cyflwyno profion darllen a rhifedd cenedlaethol.

Bydd y rhain yn darparu data crynodol, wedi'u casglu a'u dadansoddi'n genedlaethol a'u defnyddio'n rhan o'r model atebolrwydd cenedlaethol. Bydd data profion yn rhoi dangosyddion clir i athrawon o ddatblygiad sgiliau a chynnydd, a bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i'r dystiolaeth y mae athrawon yn ei defnyddio i lunio barn flynyddol am y sgiliau y mae dysgwyr wedi'u caffael.

Bydd asesu yn erbyn y FfLlRh a deilliannau profion yn cynnig safbwynt gwahanol ar gynnydd dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn asesu agweddau ychydig yn wahanol ar yr un sgiliau a bod un yn fraslun neu'n olwg crynodol tra bydd y llall yn defnyddio ystod lawer ehangach o dystiolaeth. Pan fydd yn ymddangos bod canlyniadau profion yn gwrth-ddweud deilliannau yn erbyn y FfLlRh neu asesiadau eraill, y peth pwysicaf fydd i athrawon ystyried y rhesymau dros unrhyw wahaniaeth a rhoi sylw priodol iddynt.

# Trosolwg o gydran llythrennedd y FfLlRh

Ystyr llythrennedd yw defnyddio sgiliau iaith mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae'n golygu defnyddio sgiliau llythrennedd a gwybod sut i ddefnyddio Cymraeg a Saesneg. Mae llythrennedd yn disgrifio cyfres o sgiliau, gan gynnwys siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu, sy'n ein galluogi i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Nid yw llythrennedd wedi'i gyfyngu i fecaneg gallu dadgodio'r geiriau ar dudalen neu ysgrifennu brawddeg sy'n ramadegol gywir, er bod y rhain yn sgiliau hanfodol. Mae'n ymwneud â'r sgiliau y mae eu hangen i ddeall iaith ysgrifenedig ac iaith lafar, dehongli'r hyn a gafodd ei ysgrifennu neu ei ddweud, a gwneud casgliadau o'r dystiolaeth sydd o'n cwmpas. Mae hefyd yn ymwneud â'r gallu i gyfathrebu – yn rhugl, yn gywir ac yn ddarbwyllol. Mae llythrennedd yn seiliedig ar ddatblygu darllen, ysgrifennu ac iaith lafar ar draws pob maes pwnc. Bwriedir i'r gydran llythrennedd asesu gallu dysgwyr i ddefnyddio'r sgiliau llafaredd, darllen ac ysgrifennu y maent wedi'u dysgu i gwblhau tasgau a datrys problemau realistig sy'n briodol i'w hoedran. Nid yw llythrennedd yr un fath â Chymraeg neu Saesneg; o ganlyniad nid yw disgwyliadau'r FfLlRh yn rhoi sylw i bob agwedd ar y Gorchmynion pwnc Cymraeg a Saesneg ac mae'n rhaid eu defnyddio ar y cyd â mathau eraill o asesiadau i ddatblygu darlun cynhwysfawr o gyflawniad dysgwyr.

## Y cysylltiad â'r cwricwlwm

Mewn ysgolion, mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ddatblygu a gwerthuso sgiliau llythrennedd, nid dim ond yr arbenigwr(wyr) iaith. Disgwylir i bob dysgwr gymhwyso ac estyn eu sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Felly bydd cydran llythrennedd y FfLlRh yn helpu athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig i roi sylw i'r gofynion sgiliau llythrennedd yn y rhaglenni astudio Cymraeg/Saesneg ond nid yr agweddau mwy llenyddol/creadigol ar y Gorchmynion pwnc.

## Dilyniant mewn llythrennedd

Nod y disgwyliadau llythrennedd yw annog dysgwyr i ddatblygu a dangos eu sgiliau mewn llafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu at ddibenion gwahanol ar draws y cwricwlwm.
Mae'r disgwyliadau yn ymwneud yn bennaf â datblygu a chydnabod gallu dysgwyr i ddewis a chymhwyso sgiliau llythrennedd mewn ffyrdd sy'n briodol i'r cyd-destun.

Mae'r disgwyliadau yn ceisio cydnabod dilyniant dysgwyr o ran technegau sylfaenol a sgiliau cymhwyso. Mae'r disgwyliadau cysylltiedig ag oedran yn adeiladu ar ddisgwyliadau'r flwyddyn flaenorol er mwyn sicrhau dilyniant flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer pob elfen, tra bo datganiadau, yn is na'r dosbarth Derbyn, yn adlewyrchu dilyniant cynyddol ond nid ydynt yn gysylltiedig ag oedran. Mae'n bwysig nodi os yw geiriad disgwyliad yn union yr un fath â disgwyliad y flwyddyn flaenorol mae'r dilyniant yn rhan annatod o agwedd arall ar y disgwyliadau, er enghraifft bydd y strategaethau a'r heriau'n fwy heriol ym mhob cam.

Mae'r FfLlRh yn cynnwys pob dysgwr. Mae'n bosib y bydd dysgwyr ag ADY yn gweithio'n is na disgwyliadau cysylltiedig ag oedran ar gyfer y rhan fwyaf, neu'r cyfan, o'u gyrfa ysgol, a gall dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio'r tu hwnt i ddisgwyliadau Blwyddyn 9 ddefnyddio datganiadau ymestyn sy'n canolbwyntio ar uwch sgiliau.

## Llinynnau llythrennedd

### Llinyn 1 – Llafaredd ar draws y cwricwlwm

Bydd pobl yn cyfleu eu hanghenion, eu teimladau a'u meddyliau; yn ailddweud profiadau wrth eraill; ac yn mynegi eu syniadau drwy rym y gair llafar. Bydd pobl yn cyfeirio at eu bwriadau drwy ofyn cwestiynau, geirio/mynegi barn a gwneud dewisiadau drwy amryw o gyfryngau, a thrwy adeiladu ar brofiadau blaenorol. Mae gwrando ac ymateb yn briodol i eraill ac amryw o gyfryngau eraill yn elfen hanfodol wrth ddatblygu a defnyddio iaith ac wrth gydweithio a thrafod.

Mae'r llinyn llafaredd ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar un elfen – Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau. Mae'r elfen hon wedi'i hisrannu'n dair agwedd.

- Siarad
  - cyfleu syniadau a gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd ac amryw o sefyllfaoedd.
- Gwrando
  - gwrando ac ymateb i safbwyntiau a syniadau pobl eraill.
- Cydweithio a thrafod
  - cyfrannu i drafodaethau a chyflwyniadau
  - trafod safbwyntiau/syniadau pobl eraill er mwyn dod i gytundeb.

### Llinyn 2 – Darllen ar draws y cwricwlwm

Drwy ddarllen, bydd pobl yn cael gafael ar syniadau, gwybodaeth a phrofiadau i'w helpu i'w deall nhw eu hunain, deall eu byd ac i ddysgu a gweithio'n effeithiol.

Mae'r llinyn darllen ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddwy elfen – Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth, ac Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Mae'r rhain wedi'u hisrannu'n dair agwedd. Mae Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth wedi'i isrannu i'r agwedd hon.

- Strategaethau darllen
  - defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen priodol i wneud synnwyr o destunau
  - defnyddio strategaethau i wella rhuglder/rhwyddineb darllen
  - asesu ansawdd a dibynadwyedd testunau.

Mae Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.

- Darllen a deall
  - deall gwybodaeth anghyfarwydd
  - adnabod prif syniadau, digwyddiadau a manylion ategol
  - rhagfynegi, casglu, a deall haenau o ystyr
  - gwneud cysylltiadau o fewn/ar draws ystod o destunau/themâu
  - gwneud ymchwil i ddatblygu dealltwriaeth lawn.
- Ymateb a dadansoddi
  - trefnu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol
  - gwahaniaethu rhwng ffeithiau, damcaniaethau a barn
  - cymharu ystod o safbwyntiau
  - gwerthuso cynnwys, cyflwyniad a dibynadwyedd testunau.

### Llinyn 3 – Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm

Bydd pobl yn ysgrifennu i gofnodi ac archwilio eu meddyliau, eu teimladau a'u barn; i gyfathrebu ag eraill; ac i fynegi eu syniadau trwy rym yr iaith.

Mae'r llinyn ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn canolbwyntio ar ddwy elfen – Trefnu syniadau a gwybodaeth, ac Ysgrifennu'n gywir. Mae'r rhain wedi'u hisrannu'n bedair agwedd. Mae Trefnu syniadau a gwybodaeth wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mawrth 2013

Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013

- Ystyr, dibenion, darllenwyr
  - cynllunio ac addasu arddull ysgrifennu i weddu i'r gynulleidfa a'r diben
  - gwella ysgrifennu drwy adolygu ac ailddrafftio annibynnol
  - ysgrifennu i sicrhau bod pwnc yn cael ei gwmpasu'n gyflawn
  - gwella cyflwyniad ysgrifennu (gan gynnwys drwy ddefnyddio TGCh)
  - ystyried, golygu ac ailddrafftio i wella gwaith ysgrifennu.
- Strwythur a threfn
  - defnyddio strwythur sy'n briodol i'r diben ac sy'n ganolbwynt i'r dasg
  - dewis, dadansoddi a chyflwyno gwybodaeth yn briodol
  - sefydlu strwythur i drefnu ysgrifennu.

Mae Ysgrifennu'n gywir wedi'i isrannu'n ddwy agwedd.

- Iaith
  - defnyddio iaith yn briodol i ysgrifennu
  - defnyddio termau technegol a geirfa briodol ac iaith sy'n addas i gyd-destun pwnc-benodol.
- Cystrawen, atalnodi, sillafu, llawysgrifen
  - datganiadau penodol sy'n cyfeirio at ddilyniant ym mhob agwedd yn dibynnu ar y math o ysgrifennu a lefel oedran.

# Trosolwg o gydran rhifedd y FfLlRh

Mae rhifedd yn cyfeirio at gymhwyso dealltwriaeth fathemategol mewn gweithgareddau bob dydd yn yr ysgol, yn y cartref, yn y gwaith ac yn y gymuned. Mae mwy i rifedd na dim ond addysgu rheolau a gweithdrefnau mathemateg. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig bod y technegau mathemategol sylfaenol yn cael eu haddysgu i safon sy'n caniatáu i ddysgwyr fod yn rhifog. Mae rhifedd yn disgrifio'r gyfres o sgiliau y mae eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau'r byd go iawn mewn amryw o sefyllfaoedd drwy gymhwyso ymresymu rhifyddol er mwyn cynllunio sut i ddatrys y broblem, ac yna cwblhau'r gweithdrefnau mathemateg i gael hyd i'r ateb.

Mae rhifedd yn wahanol i'r pwnc mathemateg oherwydd mae'n golygu cymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd mewn mathemateg mewn ffordd drawsgwricwlaidd, byd go iawn, nid dim ond y sgiliau eu hunain. Mae cydran rhifedd y FfLlRh yn adlewyrchu hyn, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 3, lle na ddisgwylir i'r sgiliau gweithdrefnol fod yn llawer mwy datblygedig, ond disgwylir i'r cyd-destun a'r broblem fod yn fwy anodd ac felly bydd y sgiliau ymresymu (e.e. gwybod sut i ddatrys y broblem) yn datblygu.

## Y cysylltiad â'r cwricwlwm

Mewn ysgolion, mae **pob** athro/athrawes yn gyfrifol am ddatblygu a gwerthuso sgiliau rhifedd. Yn dibynnu ar y tasgau a ddatblygir neu a ddewisir, bydd defnyddio'r gydran rhifedd yn helpu athrawon mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig i roi sylw i ystod eang o ddeilliannau o'r rhaglenni astudio mathemateg. Disgwylir i ddysgwyr ym mhob ysgol gymhwyso ac estyn eu sgiliau rhifedd ar draws pob maes pwnc, e.e. darllen/gwneud map mewn daearyddiaeth, olrhain cynnydd mewn addysg gorfforol, defnyddio persbectif yn y celfyddydau gweledol, ac ati. Felly mae cydran rhifedd y FfLlRh wedi cael ei datblygu hefyd i'w chymhwyso ym mhob maes cwricwlwm. Fel arfer bydd tasgau a phroblemau rhifedd yn defnyddio cysyniadau a sgiliau ar draws y cwricwlwm, a gellir eu grwpio yn ôl pwrpas neu gyd-destun, e.e. wrth reoli cyllid.

## Dilyniant mewn rhifedd

Mae dilyniant trwy'r camau yn cael ei arddangos gan allu cynyddol i ddatrys problemau'n annibynnol ac ymgymryd â'r gweithdrefnau mathemategol perthnasol.

Mae'n bwysig nodi os yw geiriad disgwyliad yn union yr un fath mewn gwahanol oedrannau mae'r dilyniant yn rhan annatod o agwedd arall ar y disgwyliadau neu gymhlethdod cynyddol y broblem. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos Cyfnod Allweddol 3 pan fydd dysgwyr yn gwybod am nifer o'r gweithdrefnau rhifyddol ond yr her yw gwella ymresymu rhifyddol drwy dasgau sy'n fwyfwy cymhleth.

Yn dilyn yr ymgynghoriad yn haf 2012, gofynnwyd i ni ystyried y sgiliau y gallai dysgwyr mwy galluog a thalentog eu dangos y tu hwnt i'r rhai a ddangosir ym Mlwyddyn 9. Mae'r golofn 'Ymestyn' yn adlewyrchu ein casgliadau ar estyniad naturiol rhai, ond nid pob un, o'r sgiliau yn y FfLlRh. Yn wir, ni fyddai'n briodol i ddangos dilyniant llawn pob sgìl oherwydd ni fwriedir iddi fod yn golofn ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 10, ac nid oes modd datblygu pob sgìl o ran rhifedd, neu byddai'n fwy mathemategol pur ac academaidd.

Felly, mae'r golofn 'Ymestyn' yn rhoi sylw arbennig i'r sgiliau hynny y gallai dysgwyr mwy galluog a thalentog eu dangos. Gall hyn fod drwy addasu dulliau mwy effeithlon o sgiliau blaenorol, e.e. drwy ddefnyddio sgiliau megis defnyddio pwerau i gael hyd i ffyrdd mwy effeithlon o gyfrifo adlog. Gallai hefyd fod drwy ymestyn i fersiynau mwy cymhleth o sgiliau blaenorol sy'n gofyn am ystyriaeth ac ymresymu ychwanegol, e.e. beth sy'n digwydd i arwynebedd delwedd os yw'r maint yn cael ei gynyddu mewn dau-ddimensiwn o'i gymharu â dim ond un dimensiwn.

Ni chaiff y golofn 'Ymestyn' ei phrofi fel rhan o'r gyfres o brofion rhifedd cenedlaethol.

## Llinynnau rhifedd

Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar bedwar llinyn rhifedd, gydag elfennau gwahanol o fewn y llinynnau hyn. Mae'r disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn helpu athrawon i gael manylder yng nghynnydd disgwyliedig y sgiliau hyn mewn cyd-destun oedran briodol. Bydd y deunyddiau enghreifftio ategol yn dangos sut y gall y sgiliau hyn gael eu dangos mewn tasgau ar draws y cwricwlwm. Mae'r llinynnau wedi'u nodi yma.

### Llinyn 1 – Datblygu ymresymu rhifyddol

Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar bedwar llinyn rhifedd, gydag elfennau gwahanol o fewn y llinynnau hyn. Mewn rhai achosion,

mae'r elfen yn gasgliad o feysydd cysylltiedig, sy'n adlewyrchu'r ffaith eu bod wedi'u cydgysylltu ac ni ddylid eu rhannu ymhellach. Er enghraifft, yng nghyd-destun bywyd go iawn, mae arwynebedd wedi'i gysylltu â chyfaint yn ogystal ag ongl a safle; felly maent yn cyfrif fel un elfen (h.y. Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle) ac nid dwy elfen. Mae'r disgwyliadau'n adlewyrchu'r cysylltiad hwn. Mae'r disgwyliadau ym mhob un o'r llinynnau yn helpu athrawon i gael manylder yng nghynnydd disgwyliedig y sgiliau hyn yng nghyd-destun oedran briodol. Bydd y deunyddiau enghreifftio ategol yn dangos sut y gall y sgiliau hyn gael eu dangos mewn tasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r elfennau yn y llinyn hwn yn cyfeirio at y sgiliau y mae eu hangen i adnabod pa brosesau sy'n ofynnol i ddatrys problem bywyd go iawn, sut i fynegi'r ymagwedd honno yn eu gwaith, a sut i wneud casgliadau drwy adolygu eu prosesau a'u hatebion eu hunain ar sail rhesymolrwydd. Mae'r llinyn Datblygu ymresymu rhifyddol yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Adnabod prosesau a chysylltiadau.
- Cynrychioli a chyfathrebu.
- Adolygu.

Pan wyddys sut i ddatrys problem, ceir cyfres ar wahân o sgiliau a ddefnyddir i gwblhau'r gweithdrefnau a chael at yr ateb cywir. Gall y gweithdrefnau hyn gael eu rhannu ymhellach i ddefnyddio sgiliau rhif, mesur a thrin data, a adlewyrchir yn strwythur y gydran rhifedd.

**Llinyn 2 – Defnyddio sgiliau rhif**

Mae sgiliau rhif yn disgrifio'r sgiliau sylfaenol y mae eu hangen er mwyn gallu defnyddio a thrin rhifau yn hwylus wrth gwblhau gweithdrefnau. Yma bydd dysgwyr yn dysgu sut i rifo, bod trefn arbennig i rifau, bod modd cynrychioli rhifau nad ydynt yn gyfanrifau mewn ffyrdd gwahanol, a sut i ddefnyddio strategaethau gwirio i sicrhau bod y weithdrefn wedi cael ei chwblhau'n gywir.

Mae cyd-destun penodol arian wedi'i adlewyrchu yn y llinyn hwn hefyd a blociau adeiladu addysg ariannol. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau rhif yn canolbwyntio ar bum elfen.

- Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau.
- Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb.

- Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig.
- Amcangyfrif a gwirio.
- Rheoli arian.

**Llinyn 3 – Defnyddio sgiliau mesur**

Mae sgiliau mesur yn adlewyrchu'n bennaf bwysigrwydd gwybod pa fesuriadau i'w defnyddio ym mha gyd-destun a pha unedau safonol i'w defnyddio, yn ogystal â rhoi manyldeb ynghylch sut a phryd y gellir cyflwyno'r cysyniadau hyn. Yn ddiweddarach mae'r cysyniadau o gymysgu unedau i roi mesurau cyfansawdd yn cael eu cyflwyno, e.e. cyflymder fel metrau yr eiliad. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau mesur yn canolbwyntio ar bedwar elfen.

- Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd.
- Amser.
- Tymheredd.
- Arwynebedd a chyfaint. Ongl a safle.

**Llinyn 4 – Defnyddio sgiliau data**

Mae cynrychioli canlyniadau datrys problem neu ateb cwestiwn yn cynnwys trin data, a gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, megis trwy un ateb, tabl neu ryw fath o siart. Mae defnyddio'r weithdrefn trin data gywir, neu'r un orau, yn sgìl trefniadol ynddo'i hun, ac mae'r llinyn hwn o'r gydran yn helpu i ddangos pa sgiliau y gall athrawon ddisgwyl eu gweld gan ddysgwyr mewn grŵp blwyddyn arbennig sy'n gweithredu ar eu lefel ddisgwyliedig.

Mae sgiliau data uwch hefyd yn caniatáu i ddysgwyr wneud casgliadau a llunio damcaniaethau o'r canlyniadau. Mae'r llinyn Defnyddio sgiliau data yn canolbwyntio ar dair elfen.

- Casglu a chofnodi data.
- Cyflwyno a dadansoddi data.
- Dehongli canlyniadau.

# Atodiad 1: Rhestr o dermau llythrennedd (i gyd-fynd â'r gydran llythrennedd cyfrwng Cymraeg)

Mae tair dogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n bwyntiau cyfeirio defnyddiol iawn i gael gwybodaeth am lythrennedd.

- Mae *Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008) yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen.
  www.wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/page4/sevenareas/llc/fplanglitcommwpdf?lang=cy
- Mae *Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o dermau gramadegol a sillafu.
  www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100524writingcy.pdf
- Mae *Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010) yn cynnwys gwybodaeth am fathau o destunau, sylwadau ar ysgrifennu dysgwyr ar draws y cwricwlwm a chyfeiriadau at adnoddau eraill.
  www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100426higherorderlitcy.pdf

Defnyddir y termau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr hon yn y llinynnau Llafaredd ar draws y cwricwlwm, Darllen ar draws y cwricwlwm ac Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm o'r FfLlRh. Mae'r cyfeiriadau at y Gymraeg wedi cael eu cynnwys yn y rhestr o dermau er mwyn dangos ble mae'r cydrannau llythrennedd Cymraeg a Saesneg yn gwahaniaethu.

### Datblygiad cyfathrebu/iaith

Mae iaith yn hanfodol i feddwl a dysgu ac felly mae'n rhan annatod o bob pwnc a'r cwricwlwm cyfan. Defnyddir iaith:

- ar lafar (siarad) – gall rhai plant ddefnyddio systemau amgen i'r llais fel arwyddo; mae cyfathrebu di-eiriau yn aml yn cyd-fynd â siarad a gwrando gan gynnwys mynegiannau'r wyneb, ystumiau a symudiadau'r corff
- yn ysgrifenedig (mewn print ac ar sgrin) – mae testunau'n aml yn cynnwys lluniau a delweddau sy'n allweddol i gyfleu ystyr
- yn dawel (darllen, gwrando a meddwl).

## Llafaredd

### Dibenion

Mae ystyried a chyfnewid gwybodaeth a syniadau, cyflwyno canfyddiadau a chanlyniadau er mwyn i eraill ymateb iddynt

a chanfod beth mae eraill yn ei wybod ac yn ei feddwl yn rhai o ddibenion pwysig siarad i'r dysgwr. Mae dibenion eraill yn cynnwys datblygu sgiliau cymdeithasol a chydweithredu, dysgu sut i siarad yn glir ac yn rhugl, a dysgu sut i ddeall, beirniadu a chyflwyno syniadau ar lafar.

### Cynulleidfa/gwrandawyr

Mae natur y gwrandawyr neu'r gynulleidfa'n effeithio ar yr eirfa a ddewisir gan siaradwr, lefelau o ffurfioldeb, strwythur yr iaith a chywair ac arddull siarad.

- Os yw'r ymddiddan rhwng ffrindiau a chyfoedion mae'n debygol o fod yn llai ffurfiol, gan gynnwys defnyddio 'ti', gyda'r cyfranogwyr yn cymryd troeon byrrach, ac mae'n debyg y bydd y drafodaeth ynghylch y pwnc yn llai manwl am fod y cyfranogwyr yn adnabod ei gilydd ac nid oes angen iddynt esbonio eu hunain fel arfer.
- Os yw'r ymddiddan â chynulleidfa fwy o faint lle nad yw'r siaradwr yn adnabod pawb mae'r ymddiddan yn debygol o fod yn fwy ffurfiol, yn fwy amhersonol ac yn fwy penodol a bydd llai o ryngweithio.
- Os yw'r ymddiddan rhwng cyfranogwyr o statws anghyfartal, er enghraifft pennaeth a dysgwr, mae'r ymddiddan yn debygol o fod yn ffurfiol a bydd y cywair a'r arddull yn fwy pendant a chywir.

### Amrywio

Mae ymddiddan yn amrywio llawer mwy nag ysgrifennu ac mae ffactorau megis cyd-destun, diben a phwy sy'n bresennol yn cael cryn ddylanwad arno. Ceir gwahanol batrymau o ymddiddan rhwng bechgyn a merched, rhwng siaradwyr Cymraeg o wahanol gefndiroedd diwylliannol a chan ddibynnu ar gyd-destunau megis gwaith, hamdden neu weithgaredd cymdeithasol ac mae'r hyn a ddisgwylir gan y fath ymddiddan yn amrywio hefyd.

Mewn sefyllfaoedd mwy ffurfiol disgwylir i gyfranogwyr ddefnyddio Cymraeg safonol, sef yr iaith a ddefnyddir mewn bywyd cyhoeddus. Mae Cymraeg safonol llafar yn tueddu i gyfyngu cymaint â phosibl ar y defnydd o ymadroddion llafar a bratiaith gan ddefnyddio termau ac ymadroddion technegol lle y bo'n briodol.

### Ffurfiol/anffurfiol

Nodweddir ymddiddan anffurfiol yn aml gan droeon byrrach, brawddegau heb eu gorffen, defnyddio geiriau ac ymadroddion, *e.e. 'joio'*, a chyfeiriadau at yr hyn a rennir gan y grŵp, *e.e. y geiriau*

*diweddaraf sydd mewn ffasiwn, diddordebau tebyg.* Mae ymddiddan ffurfiol yn aml yn cynnwys brawddegau mwy cyflawn, ac mae'r cywair a'r arddull yn fwy amhersonol.

### Cyflwyniad/trafodaeth

Mewn cyflwyniad mae'r siaradwr yn siarad am beth amser, fel arfer yn ddi-dor, â chynulleidfa sy'n cynnwys o leiaf dri unigolyn, gyda rhywfaint o ffurfioldeb ac at ddiben penodol. Gall trafodaethau ddigwydd rhwng unigolion mewn grwpiau bach neu grwpiau mwy o faint lle mae'r cyfranogwyr yn aml yn rhyngweithio â'i gilydd. Mae dadl ffurfiol yn cynnwys cyflwyniad a thrafodaeth.

### Treiglo

Yn y Gymraeg, o dan amodau penodol sy'n cynnwys cenedl enwau, arddodiaid ac ati, newidir un gytsain am gytsain arall ar ddechrau gair, *e.e. dau fachgen/dwy ferch.* Mae yna dri math o dreiglad: treiglad meddal, treiglad trwynol a threiglad llaes.

## Darllen

### Testunau

Gall testunau, mewn print neu ar sgrin, gynnwys llawer o wahanol nodweddion y bwriedir iddynt gyfleu ystyr. Mae cymysgedd o eiriau, lluniau, ffotograffau, diagramau a ffyrdd eraill o gynrychioli cynnwys yn gyffredin mewn testunau i blant o'r oedrannau ieuangaf. Gall fod gan destunau ar sgrin nodweddion ychwanegol megis sain, delweddau symudol/ffilm, hyperddolenni, bariau offer a dewislenni. Pan fydd testun yn cynnwys mwy na geiriau – megis lluniau, delweddau symudol, sain – cyfeirir at y rhain fel **testunau aml-foddol**. Mae'r FfLlRh yn canolbwyntio ar wneud synnwyr o destunau gan ddefnyddio'r holl nodweddion ynddynt.

### Strategaethau ar gyfer gwneud synnwyr wrth ddarllen

Mae ystod o strategaethau y gall dysgwyr eu defnyddio i wneud synnwyr o'r hyn a ddarllenant. Mae rhai technegau'n arbennig o bwysig ar gamau cynnar y broses o ddysgu darllen, ac mae eraill yn bwysicach wrth ddarllen i gaffael gwybodaeth o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen.

Mae **strategaethau cynnar** yn cynnwys y canlynol.

- **Gwybodaeth ffonig** – defnyddio gwybodaeth am lythrennau a seiniau i wneud geiriau. Mae geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (seiniau) ac mae ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig).

- **Dadgodio** – darllen geiriau drwy edrych ar lythrennau a rhannau o eiriau.
- **Geirfa weledol** – geiriau y mae dysgwyr yn eu hadnabod wrth eu gweld heb orfod eu dadgodio na'u gweithio allan, geiriau aml eu defnydd fel arfer.
- **Gwybodaeth graffig** – defnyddio gwybodaeth am nodweddion allweddol ar y system ysgrifennu, gan gynnwys siâp sylfaenol llythrennau, patrymau megis ffurf luosog enwau a sillafiad terfyniadau berfau, y gwahaniaeth rhwng priflythrennau a llythrennau bach, ac ati. Gall hyn hefyd gynnwys nodweddion megis diwyg, ffont, y defnydd o ddiagramau, ac ati.
- **Cyd-destun** – defnyddio cliwiau o gynnwys y testun neu o wybodaeth flaenorol/gyffredinol i wneud synnwyr ohono.
- **Cystrawen/cystrawennol** – defnyddio strwythur y frawddeg a gramadeg i weithio allan beth yw gair.
- **Geiriau aml eu defnydd** – dyma'r geiriau sy'n codi amlaf pan fydd plentyn bach yn darllen ac yn ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn gyffredin iawn, *e.e. 'y', 'a', 'mae'*, ac mae eu hadnabod yn helpu plentyn i ddod yn ddarllenydd hyfedr yn gyflym.

Mae **strategaethau darllen** yn cynnwys y canlynol.

- **Cip ddarllen (sgimio)** – darllen er mwyn cael trosolwg cychwynnol o bwnc a phrif syniadau testun, efallai drwy ddefnyddio technegau megis darllen dechrau a diwedd paragraffau neu ddarllen i lawr canol y dudalen.
- **Llithr ddarllen (sganio)** – chwilio am wybodaeth drwy nodi geiriau allweddol a dod o hyd i wybodaeth berthnasol iddyn nhw.
- **Byrdwn neu hanfod darn** – darllen er mwyn dilyn llinyn dadl neu naratif, prif nodweddion pwnc neu'r ffordd y caiff ei drin.
- **Geiriau allweddol** – fe'u defnyddir yn benodol wrth chwilio'r rhyngrwyd am wybodaeth berthnasol, sy'n hanfodol i waith chwilio effeithlon.
- **Darllen manwl** – darllen yn ofalus er mwyn cael gwybodaeth benodol, a hefyd er mwyn deall yn llawn fwriad y testun a'r ffordd y mae'r iaith a ddewisir a strwythur brawddegau'n cyfuno i lunio negeseuon penodol.

Mae **strategaethau trin gwybodaeth** yn cynnwys y canlynol.

- **Coladu** – casglu ynghyd yr holl wybodaeth am bwnc o wahanol ffynonellau, gan grynhoi lle y bo'n briodol.

- **Dadansoddi** – chwilio am batrymau, tybiaethau sylfaenol, rhesymau pam mae'r pwnc yn cael ei drin yn y fath fodd ac effeithiau hynny.
- **Cyfuno** – asesu a threfnu ffeithiau, barn a syniadau o amrywiaeth o ffynonellau a'u dwyn ynghyd i roi dehongliad cyson a chydlynol.
- **Dod i gasgliadau** – cysylltu gwahanol ddarnau o wybodaeth benodol a dod i gasgliad.
- **Dehongli** – deall gwybodaeth neu farn nas nodir yn benodol.

Mae **gwerthuso testunau** yn cynnwys ystyried y canlynol.

- **Rhagfarn a gwrthrychedd** – i ba raddau y mae testun yn ddiduedd, gan nodi ffeithiau sydd wedi'u hategu gan dystiolaeth, neu a yw'r cynnwys yn unochrog ac yn ddewisol ac yn cefnogi safbwynt penodol.
- **Ffeithiau, damcaniaethau a barn** – gwahaniaethu rhwng **ffeithiau** (gwybodaeth y gellir ei gwirio ac sydd wedi'i hategu gan dystiolaeth arall, er y gellir ei newid yn y tymor hwy), **damcaniaethau** (syniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n ceisio cysylltu neu esbonio gwybodaeth) a **barn** (syniadau a dehongliadau ysgrifennydd sy'n seiliedig ar farn bersonol).
- **Beirniadu** – trafod syniad neu adnodd ac ati neu wneud sylwadau arno, gan asesu ei rinweddau a pha mor ddefnyddiol ydyw.
- **Dibynadwyedd** – i ba raddau y gellir dibynnu ar wybodaeth, gan edrych ar ffynhonnell yr wybodaeth honno, pwy sydd wedi'i chyfleu ac a yw'n cael ei hategu gan bobl eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos gwybodaeth o'r rhyngrwyd.
- **Safbwynt** – barn neu safbwynt ysgrifennydd y testun y gellir eu dehongli neu eu casglu o'r ffordd y mae'r cynnwys yn cael ei drin.

Mae **nodweddion trefniadol testunau** yn cynnwys y canlynol.

- **Dyfeisiau cyflwyno** – fe'u defnyddir i wneud i destun fod yn fwy eglur ac i drefnu brawddegau a pharagraffau, *e.e. pwyntiau bwled, tablau, is-benawdau, saethau, penawdau (labeli ar gyfer lluniau, diagramau, ac ati), diagramau llif.*
- **Cyfeiriadau** – nodweddion i helpu'r darllenydd i ddod o hyd i wybodaeth, *e.e. cynnwys, mynegai, rhestr termau, geiriadur, penawdau penodau.*

- **Strwythur testun** – sut mae'r testun cyfan wedi'i drefnu, *e.e. yn gronolegol, dadl, proses*. Mae adrannau weithiau'n cael eu nodi gan **benawdau** (ar gyfer prif adrannau) ac **is-benawdau** (ar gyfer isadrannau).

## Ysgrifennu

### Dibenion

Mae diben ysgrifennu yn dylanwadu ar y dewisiadau y mae ysgrifennydd yn eu gwneud o ran pa eiriau i'w defnyddio, ffurfiau brawddegau a ffurf gyffredinol y gwaith ysgrifennu. Gall gwaith ysgrifennu fod at ddefnydd yr ysgrifennydd yn unig (nodiadau, rhestri, drafftiau) neu gellir ei ddefnyddio i roi gwybodaeth i ddarllenydd neu i ddylanwadu arno. Mae rhai dibenion yn gysylltiedig â mathau o destunau a ddefnyddir yn gyffredin, megis cyfarwyddiadau mewn rysáit. Mae rhoi diben penodol i waith ysgrifennu yn helpu'r ysgrifennydd i wneud dewisiadau da o ran beth i'w ddweud a sut i'w ddweud.

### Darllenwyr

Mae'r darllenydd neu'r gynulleidfa ddisgwyliedig hefyd yn dylanwadu ar y geiriau, y brawddegau a ffurf gyffredinol yr ysgrifennu a ddewisir gan yr ysgrifennydd. Mae'r ysgrifennydd yn gwneud addasiadau, megis defnyddio iaith dechnegol, faint o fanylion a gynhwysir neu pa mor fanwl y mae'n esbonio pethau, gan ddibynnu ar bwy fydd yn darllen y gwaith ysgrifennu. Pan fo'r gwaith ysgrifennu bob amser ar gyfer yr athro/athrawes mae'n annhebygol y datblygir amrywiaeth ac amrediad gwaith ysgrifennu'r dysgwr.

### Mathau o destunau

Mae confensiynau'n perthyn i rai mathau o ysgrifennu y gellir eu dysgu ac sy'n ddefnyddiol i ddysgwyr. Ni ddylid trin y confensiynau hyn fel 'rheolau' na ellir eu torri. Nodir yma rai o'r mathau mwyaf cyffredin.

- **Adrodd/naratif** – mae'n ailadrodd digwyddiadau yn eu trefn gronolegol. Gall fod yn ffuglen neu gall gynnwys gwybodaeth.
- **Adroddiad** – digwyddiad neu broses a ddisgrifir, nid yn gronolegol o reidrwydd.

- **Cyfarwyddo** – i helpu darllenwyr i wneud rhywbeth, *e.e. ryseitiau, llawlyfrau atgyweirio cerbydau, cyfarwyddiadau hunangydosod*. Mae testunau cyfarwyddiadol yn tueddu i roi cyfarwyddiadau cam wrth gam a defnyddio berfau gorchmynnol neu ferfenwau.
- **Darbwyllo** – ystyr bod yn ddarbwyllol yw ceisio dylanwadu ar y darllenydd neu ei argyhoeddi. Fel arfer mae testun darbwyllol, parhaus yn cynnwys datganiad o'r safbwynt, dadleuon a thystiolaeth o blaid y gosodiad hwn, efallai rhai dadleuon a thystiolaeth sy'n cefnogi safbwynt gwahanol a chrynodeb neu argymhelliad terfynol. Mae mathau eraill o destunau darbwyllol (*e.e. hysbysebion*) yn defnyddio cyfuniad o nodweddion testunol gan gynnwys geiriau, seiniau a delweddau, er mwyn darbwyllo.
- **Disgrifio** – rhoi gwybodaeth am ddigwyddiad, gwrthrych, lle, ac ati, heb fynegi barn arno na chynnig esboniad.
- **Esbonio** – cynhwysir rhesymau a manylion er mwyn dangos pam a sut, sy'n cynnwys yn aml nodi achosion a chanlyniadau, a chysylltiadau rhwng digwyddiadau neu syniadau.
- **Trafodaeth/dadl** – ystyried manteision ac anfanteision pwnc, cyflwyno dadleuon a gwybodaeth o wahanol safbwyntiau, weithiau gan ddod i gasgliad.

## Gramadeg

Gramadeg yw'r rheolau sy'n rheoli'r cydberthnasau rhwng geiriau mewn iaith. Addysgir gramadeg mewn perthynas ag ysgrifennu gan amlaf, oherwydd mai'r ffurf ysgrifenedig sydd agosaf at Gymraeg safonol, a disgwylir cywirdeb gan ddarllenwyr. **Ffurfiau Cymraeg safonol** yw'r cystrawennau gramadegol a'r eirfa sy'n gysylltiedig â defnyddio Cymraeg yn gyhoeddus ac fel arfer y rhain yw'r ffurfiau cywir ar gyfer ysgrifennu.

### adferf

Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu berf, *e.e. 'rhedodd yn gyflym', 'cyrhaeddodd yn hwyr'*. Mae i **ymadroddion adferfol** yr un swyddogaeth ond maent yn defnyddio nifer o eiriau, *e.e. 'yn gyflymach na mathau eraill o drafnidiaeth', 'llai dibynadwy na'r disgwyl'.*

### amodol

Amser berf sy'n mynegi'r syniad bod yr hyn sy'n digwydd yn dibynnu ar rywbeth arall. Mae ffurfiau amodol yn aml yn cynnwys cysyllteiriau

megis 'os' neu 'yna' a ffurfiau berfol megis 'byddai', 'gallai' neu 'gall', a ddefnyddir yn arbennig ar gyfer damcaniaethau neu bosibiliadau.

**amser**

Dyma ffurf y ferf a ddywed wrthym pan fydd rhywbeth yn digwydd, *e.e. gorffennol, presennol, dyfodol neu barhaus*.

**ansoddair**

Gair sy'n disgrifio neu'n goleddfu enw. Gall ddod o flaen neu ar ôl yr enw, *e.e. 'yr hen ddyn' neu 'cadair las'*. Ceir gwahanol fathau o ansoddeiriau: nifer neu faint (*e.e. ychydig*), ansawdd (*e.e. da*), meddiannol *(e.e. fy*), gofynnol (*e.e. pa)*, dangosol (*e.e. hwn*). Mae i **ymadroddion ansoddeiriol** yr un swyddogaeth ond maent yn defnyddio nifer o eiriau, *e.e. 'glas tywyll â smotiau coch', 'mwy nag arfer'.*

**berf**

Gair sy'n mynegi gweithred neu fodolaeth. Gall berfau fod mewn gwahanol amserau ac maen nhw'n rhedeg, h.y. mae ffurf wahanol i bob person. Gall berfau fod yn weithredol neu'n oddefol: 'Enillodd Owain Glyndŵr Frwydr Bryn Glas' (gweithredol), 'Cafodd Brwydr Bryn Glas ei hennill gan Owain Glyndŵr' (goddefol).

**brawddeg**

- **brawddeg syml**

  Dim ond un cymal ac un brif ferf sydd gan frawddeg syml. Nid yw brawddegau syml bob amser yn fyr, am y gellir ymestyn rhannau ohonynt neu ymhelaethu arnynt, ond maent yn dal i fod yn ramadegol 'syml' cyhyd ag mai dim ond un cymal sydd ganddynt.

- **brawddeg gyfansawdd**

  Caiff brawddeg gyfansawdd ei chreu pan gaiff dwy frawddeg syml eu cysylltu â chysyllteiriau megis 'a', 'neu' ac 'ond'.

- **brawddeg gymhleth**

  Brawddeg â phrif gymal ac o leiaf un is-gymal. Cyflwynir yr is-gymal naill ai gan gysylltair megis 'er' neu 'oherwydd', neu gan ragenw perthynol megis 'a' neu 'y'.

**cymal**

Rhan benodol o frawddeg sy'n cynnwys berf. Ceir dau fath: **prif gymal** (*e.e. 'Troais y toddiant*') ac **is-gymal** *(e.e. 'nes i'r halen*

*doddi')*. Mae'r prif gymal yn gwneud synnwyr ar ei ben ei hun, ond nid felly yn achos is-gymal.

**cysylltiol**

Gair a ddefnyddir i gysylltu brawddegau neu gymalau neu i gysylltu geiriau mewn ymadrodd. Maent yn mynegi gwahanol fathau o gysylltiad: achos (*e.e. oherwydd)*, gwrthgyferbyniad (*e.e. ond*), ychwanegiad (*e.e. ac*), amser (*e.e. tan*).

**cytundeb rhwng y goddrych a'r ferf**

Mae'r geiriau cysylltiedig, y goddrych a'r ferf, yn cytuno â'i gilydd o ran nifer, cyflwr, cenedl a pherson, *e.e. 'Dywedais i/dywedodd ef' (person), 'roeddent yn gŵn bach iach iawn' (nifer)*. Sylwer bod enghreiffitau yn y Gymraeg nad ydynt yn dilyn y drefn hon, *e.e. Dywedodd y plant*.

**enw**

Gair sy'n enwi peth neu deimlad. Nodir isod y pedwar math o enw: cyffredin (cyffredinol, *e.e. anifail, cadair*), priod (enw penodol, *e.e. Bangor*), haniaethol (syniad neu gysyniad, *e.e. hapusrwydd)*, torfol (grŵp, *e.e. buches, torf*).

**paragraff**

Rhan o ddarn ysgrifenedig sy'n ymwneud ag un pwnc. Mae paragraff newydd yn nodi newid amser, lle neu bwnc ac mae'n dechrau ar linell newydd. Fel arfer mae paragraff yn **gydlynol**, sy'n golygu ei bod wedi'i gysylltu, a ddangosir yn aml mewn rhagenwau, ymadroddion/geiriau adferfol, ac ati. Yn aml ceir cysylltiadau â rhannau eraill o destun ar ddechrau a diwedd paragraffau sy'n rhoi **cydlyniad** yn gyffredinol.

**treiglo**

Yn y Gymraeg, o dan amodau penodol sy'n cynnwys cenedl enwau, arddodiaid ac ati, newidir un gytsain am gytsain arall ar ddechrau gair, *e.e. dau fachgen/dwy ferch*. Mae yna dri math o dreiglad: treiglad meddal, treiglad trwynol a threiglad llaes.

**ymhelaethu**

Esbonio rhywbeth yn fanylach er mwyn rhoi eglurder ac ymdrin ag ef yn llawn.

## Sillafu

Gall geiriau amrywio o'r rhai symlaf (cytsain-llafariad-cytsain) i eiriau cymhleth. Mae geiriau cymhleth yn amlsillafog ac, yn aml, maent yn cynnwys geiriau eraill a rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid. Mae rhai geiriau'n rheolaidd ac yn dilyn patrymau cyffredin, tra mae geiriau eraill yn llai rheolaidd, *e.e. 'wats'*, ac yn cydymffurfio llai â chonfensiynau cyffredin, sy'n golygu eu bod yn fwy anodd eu sillafu. Gall hyn fod oherwydd eu bod nhw'n tarddu o'r Saesneg.

### cytsain

Holl lythrennau'r wyddor ar wahân i'r llafariaid 'a', 'e', 'i', 'o', 'u', 'w', 'y'.

### gwreiddair

Gair y gellir ychwanegu rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid ato er mwyn gwneud geiriau eraill, *e.e. y gwreiddair yw 'trefn' yn 'trefnus', 'anhrefn', 'trefnu'*.

### ôl-ddodiad

Grŵp o lythrennau a ychwanegir at ddiwedd gair er mwyn newid ei ystyr, *e.e. 'darlun' i 'darlunio' neu 'cerdded' i 'cerddediad'.*

### rhagddodiad

Grŵp o lythrennau a ychwanegir at ddechrau gair er mwyn newid ei ystyr, *e.e. 'aneglur'*.

### Strategaethau sillafu

Mae nifer o dechnegau y gall dysgwyr eu defnyddio i ddarllen a sillafu'n gywir. Maent yn cynnwys y canlynol.

- **Gwreiddiau** – ffurf sylfaenol gair y mae geiriau eraill yn deillio ohoni (h.y. **tarddiad gair**), *e.e. coll, colled, colli.*
- **Gwybodaeth graffig** – cyfresi o lythrennau sy'n digwydd yn aml, *e.e. cae/mae, mwy/llwy.*
- **Morffoleg** – strwythur gair lle mae gan rannau o air ystyr, *e.e. rhagddodiaid (lle mae 'rhag' yn golygu o flaen, e.e. aneglur), ôl-ddodiaid (ychwanegir ar ddiwedd gair i newid yr ystyr, e.e. 'darlun' i 'darlunio' neu 'cerdded' i 'cerddediad').*
- **Segmentu** – rhannu gair yn elfennau, *e.e. plan-hig-ion*.

- **Teuluoedd o eiriau** – grwpiau o eiriau sydd â nodwedd neu batrwm cyffredin; mae ganddynt rai o'r un cyfuniadau o lythrennau ynddynt a sŵn tebyg, *e.e. cae, chwaer, chwarae.*

## Atalnodi

Yn gyffredinol mae atalnodi'n ymwneud â gramadeg brawddeg ac fel arfer mae'n nodi rhannau o destun.

### atalnod (,)

Fe'i defnyddir i wahanu rhannau o frawddeg neu restr.

### atalnod llawn (.)

Fe'i defnyddir i nodi diwedd brawddeg. Defnyddir **priflythyren** i nodi dechrau brawddeg (neu enw priod).

### colon (:)

Fe'i defnyddir i gyflwyno rhestr, ail gymal neu ddyfyniad sy'n ymhelaethu ar y cymal cyntaf neu'n ei egluro.

### collnod (')

Fe'i defnyddir i ddangos cywasgu/hepgor, *e.e. 'a'i'*.

### dyfynodau (' ') neu ddyfynodau sengl

Fe'u defnyddir i ddangos dyfyniad uniongyrchol o destun arall. Maen nhw'n debyg i **ddyfynodau (" ") neu ddyfynodau dwbl** i ddangos araith uniongyrchol mewn testun.

### ebychnod (!)

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos emosiwn fel sioc, hiwmor, llawenydd, dicter.

### gofynnod (?)

Fe'i defnyddir ar ddiwedd brawddeg i ddangos mai cwestiwn ydyw.

### hanner colon (;)

Fe'i defnyddir i wahanu cymal neu ymadrodd mewn brawddeg. Mae'n gryfach nag atalnod, ond nid yw mor gryf ag atalnod llawn.

# Atodiad 2: Rhestr o dermau llythrennedd (i gyd-fynd â'r gydran llythrennedd cyfrwng Saesneg)

There are three documents published by the Welsh Government which are very useful reference points for knowledge about literacy.

- *Language, Literacy and Communication Skills* (Welsh Assembly Government, 2008) includes information particularly relevant to the Foundation Phase.
  www.wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/whatisfoundation/page4/sevenareas/llc/fplanglitcommepdf;jsessionid=B1E15F787946CA1EE4F758268699C67C?lang=en
- *Guidance on the teaching of writing skills* (Welsh Assembly Government, 2010) has a comprehensive glossary of grammatical terms and of spelling.
  www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100524writingen.pdf
- *Developing higher-order literacy skills across the curriculum* (Welsh Assembly Government, 2010) includes information about text types, commentaries on learners' writing from across the curriculum and references to other resources.
  www.wales.gov.uk/docs/dcellspublications/100426higherorderliten.pdf

The terms included in this glossary are used in the Oracy across the curriculum, Reading across the curriculum and Writing across the curriculum strands of the LNF. The Welsh-medium references included in the glossary are to illustrate where the English and Welsh literacy components differ.

### Communication/language development

Language is fundamental to thinking and learning and so is integral to every subject and the whole curriculum. Language is used:

- orally (speaking) – some children may use alternate systems to the voice such as signing; non-verbal communication often accompanies speaking and listening including facial expressions, gestures and body movements
- in writing (print and on-screen) – often texts include pictures and images which are integral to meaning
- silently (reading, listening and thinking).

## Oracy

### Purposes

Important purposes for talk for the learner are the exploration and exchange of information and ideas, the presentation of findings and results for others' response, and finding out what others know and think. Other purposes are the development of social and collaborative skills, learning to talk clearly and fluently, and learning to understand, critique and present ideas orally.

### Audience/listeners

The nature of the listeners or audience affects a speaker's choice of vocabulary, the levels of formality, the structure of the language and the tone and style of speaking.

- If the talk is between friends and peers the talk is likely to be less formal, with participants taking shorter turns, and the topic is likely to be less explicitly examined as the participants know each other and do not usually need to explain themselves.
- If the talk is to a larger audience where not everyone is familiar to the speaker the talk is likely to be more formal, more impersonal, with greater explicitness and less interaction.
- If the talk is between participants of unequal status, for example headteacher and learner, the talk is likely to be formal and the tone and style more explicit and precise.

### Variation

Talk varies much more than writing, and is strongly influenced by factors such as context, purpose and who is present. There are different patterns and expectations of talk between boys and girls, between the English of speakers from different cultural backgrounds and depending on contexts such as work, leisure or social activity.

In more formal situations participants are expected to use standard English, which is the language used in public life. Spoken standard English tends to keep colloquialisms and slang to a minimum, and use technical terms and expressions where appropriate.

### Formal/informal

Informal talk is often characterised by shorter turns, unfinished sentences, use of words and phrases, *e.g. 'like', 'stuff'*, and references to what is shared by the group, *e.g. latest in-words, shared interests*.

Formal talk usually includes more complete sentences, with the tone and style more impersonal.

### Presentation/discussion

In a presentation the speaker talks for some time, usually without interruption, to an audience of at least three people, involving some degree of formality for a specific purpose. Discussions can take place between people in small and larger groups, and involve frequent interaction between participants. A formal debate involves both presentation and discussion.

### Welsh-medium: Mutation

In Welsh, under certain circumstances, one consonant changes to another at the start of a word, *e.g. dau fachgen/dwy ferch*. There are three types of mutation: soft, nasal and aspirate.

## Reading

### Texts

Texts, in print and on-screen, can include many different features intended to communicate meaning. A mixture of words, pictures, photographs, diagrams, and other ways of representing content is common in texts for children from the youngest ages. Texts on-screen may have additional features such as sound/audio, moving images/film, hyperlinks, tool bars and menus. When a text includes more than words – such as pictures, moving images, sound – these are referred to as **multi-modal texts**. The LNF focuses on making meaning from texts using all the features in them.

### Strategies for making meaning in reading

There is a range of strategies that learners use to make sense of what they read. Some techniques are particularly important at the early stages of learning to read, and others are more significant when reading for information from Key Stage 2 onwards.

**Early strategies** include the following.

- **Phonic knowledge** – using knowledge of letters and sounds to make words. Words are constructed from phonemes (sounds) and phonemes are represented by graphemes (written letters).
- **Decoding** – reading words by looking at letters and parts of words.

- **Sight vocabulary** – words a learner recognises on sight without having to decode them or work them out, usually high-frequency words.
- **Graphic knowledge** – using knowledge of key features of the writing system, including the basic shape of letters, patterns such as the plural form of nouns and spelling of verb endings, the difference between upper and lower case, etc. This may also include features such as layout, font, use of diagrams, etc.
- **Context** – using clues from the content of the text or from prior/general knowledge to work out the sense.
- **Syntax/syntactic** – using the structure of the sentence and grammar to work out what a word is.
- **High-frequency words** – words which occur most often in young children's reading and writing. Many of them are very common, *e.g. 'the', 'and', 'is'*, and recognising them helps a reader become proficient quickly.

**Reading strategies** include the following.

- **Skimming** – reading to get an initial overview of the subject and main ideas of a text, perhaps by techniques such as reading the beginning and ending of paragraphs or reading down the middle of the page.
- **Scanning** – looking for information by identifying key words and locating information around them.
- **Gist** – reading to follow the thread of an argument or narrative, the main features of a topic or the way it is handled.
- **Key words** – used particularly in searching the internet for relevant information, essential to efficient searching.
- **Close reading** – careful reading in order to extract specific information, and also to gain a complete understanding of the text's intentions and the way in which language choice and sentence structure combine to produce particular messages.

**Information handling** strategies include the following.

- **Collate** – gather together all the information about a topic from different sources, summarising where appropriate.
- **Analyse** – look for patterns, underlying assumptions, reasons for, and effects of, the way the topic is handled.

- **Synthesise** – assessing and sorting facts, opinions and ideas from a range of sources and bringing them together to present a consistent and coherent interpretation.
- **Deduce** – link together different, explicit pieces of information and draw a conclusion.
- **Infer** – understand information or views which are not explicitly stated.

**Evaluating texts** includes considering the following.

- **Bias and objectivity** – how far the text is impartial, reporting facts which are supported by evidence, or the content is partial, selective, and supporting a particular perspective.
- **Facts, theories and opinions** – distinguishing between **facts** (information which is verifiable and supported by other information, though it may be subject to change in the longer term), **theories** (ideas which are based on evidence and seek to link or explain information) and **opinions** (the views and interpretations of a writer which are based on personal judgement).
- **Critique** – to discuss or comment on an idea or resource etc., giving an assessment of its qualities and usefulness.
- **Reliability** – the trustworthiness of information, looking at where it has come from, who has said it and whether it is supported by others. This is particularly an issue with information from the internet.
- **Viewpoint** – the stance or position of the writer of the text which can be deduced or inferred by the way the content is handled.

**Organisational features of texts** include the following.

- **Presentational devices** – used to give clarity and to organise sentences and paragraphs, *e.g. bullet points, tables, subheadings, arrows, captions (labels for pictures, diagrams, etc.), flow diagrams*.
- **Reference** – features to help the reader find information, *e.g. contents, index, glossary, dictionary, chapter headings*.
- **Text structure** – how the whole text is organised, *e.g. by chronology, argument, process.* Sections are sometimes signalled by **headings** (for main sections) and **subheadings** (for subsidiary sections).

## Writing

### Purposes

The purpose for writing influences the choices a writer makes about the words to use, the forms of sentences and the overall shape of the writing. Writing may be just for the writer (notes, lists, drafts) or may be intended to inform or influence a reader. Some purposes are connected to commonly-used text types, such as to instruct in a recipe. Giving writing a specific purpose helps the writer make good choices about what to say and how to say it.

### Readers

The expected reader or audience also influences the writer's choices of words, sentences and overall shape of writing. The writer makes adjustments, such as the use of technical language, the amount of detail included or the explicitness of explanation, depending on who will read the writing. Where the writing is always for the teacher there is unlikely to be development of the variety and range of the learner's writing.

### Text types

There are conventions for some kinds of writing which can be learned and are helpful for learners. These conventions should not be treated as 'rules' which cannot be broken. Some of the most common types include the following.

- **Description** – provide information about an event, object, place, etc., without passing judgement on it or offering an explanation.
- **Discussion/argument** – exploration of pros and cons of a topic, presenting arguments and information from differing viewpoints, sometimes resulting in a conclusion.
- **Explanation** – reasons and details are included to show why and how, often including expressions of causes and consequences, and connections between events or ideas.
- **Instruction** – to help readers do something, *e.g. recipes, vehicle repair manuals, self-assembly instructions.* Instructional texts tend to provide step-by-step instructions and use imperative verbs.

- **Persuasion** – to be persuasive is to try to influence or convince the reader. A continuous, persuasive text typically consists of a statement of the viewpoint, arguments and evidence for this thesis, possibly some arguments and evidence supporting a different view and a final summary or recommendation. Other types of persuasive texts (*e.g. advertisements*) use a combination of textual features including words, sounds and images, in order to persuade.
- **Recount/narrative** – retells events in chronological order. It may be fictional or include information.
- **Report** – an event or a process described, not necessarily chronologically.

There is a range of conventions associated with these text types which may be used and often a text is a combination of different conventions. Imaginative use of different techniques is the mark of a confident writer.

## Grammar

Grammar is the rules that govern the relationships between words in a language. Grammar is most frequently taught in relation to writing, as the written form is closest to standard English, and correctness is expected by readers. **Standard forms of English** are the grammatical constructions and vocabulary associated with public uses of English and are generally the correct forms for writing.

### adjective

A word that describes or modifies a noun. It may come before or after the noun, *e.g. 'the old man' or 'the chair is blue'*. There are different kinds of adjective: number or quantity (*e.g. few*), quality (*e.g. good*), possessive (*e.g. my*), interrogative *(e.g. which*), demonstrative (*e.g. this*). **Adjectival phrases** have the same function but use several words, *e.g. 'dark blue with red spots'*, *'more than usual'*.

### adverb

A word that describes or modifies a verb, *e.g. 'the river runs quickly', 'it floods frequently'*, often ending in -*ly*. **Adverbial phrases** have the same function but use several words, *e.g. 'less frequently than other forms of transport', 'less reliable than expected'.*

**clause**

A distinct part of a sentence including a verb. There are two kinds: a **main clause** (*e.g. 'I stirred the solution'*) and a **subordinate clause** (*e.g. 'until the salt dissolved'*). The main clause makes sense on its own, but a subordinate clause does not.

**conditional**

A tense of a verb which expresses the idea that what happens depends on something else. Conditional forms often involve conjunctions such as 'if' or 'then' and verb forms such as 'would', 'could' or 'may', used especially for hypothesis or possibilities.

**connective**

A word used to link sentences or clauses or to connect words in a phrase. They express different kinds of link: cause (*e.g. because*), opposition (*e.g. but*), addition (*e.g. and*), time (*e.g. until*).

**elaboration**

Explaining something in more detail to give clarity and full coverage.

**paragraph**

A section of a piece of writing which is on a single topic. A new paragraph indicates a change of time, place or subject and begins on a new line. A paragraph usually is **cohesive**, meaning it is connected together, often shown in pronouns, adverbial clauses, etc. There are often links to other sections of text at the beginning and ends of paragraphs which gives **coherence** overall.

**noun**

A word that names a thing or a feeling. The four types of noun are: common (general, *e.g. animal, chair*), proper (a specific name, *e.g. Bangor*), abstract (an idea or concept, *e.g. happiness*), collective (a group, *e.g. herd, crowd*).

**sentence**

- **simple sentence**

  A simple sentence has only one clause and one main verb. Simple sentences are not always short, as parts of them may be expanded or elaborated, but they remain 'simple' grammatically as long as they have only one clause.

- **compound sentence**
  A compound sentence is created when two simple sentences are joined by conjunctions such as 'and', 'or' and 'but'.
- **complex sentence**
  A sentence with a main clause and at least one subordinate clause. The subordinate clause is introduced either by a conjunction such as 'although' or 'because', or by a relative pronoun such as 'who' or 'which'.

**subject–verb agreement**

The linked words, subject and verb, agree with each other in terms of number, case, gender and person, *e.g. 'I say/he says' (person), 'they were very healthy puppies' (number)*.

**tense**

Is the form of the verb that tells us when something is happening, *e.g. past, present, future or continuous.*

**verb**

A word that expresses an action or state of being. Verbs can be in different tenses. Verbs can be active or passive: 'Owain Glyndŵr won the Battle of Bryn Glas' (active), 'The Battle of Bryn Glas was won by Owain Glyndŵr' (passive).

## Spelling

Words vary from the simplest (consonant-vowel-consonant) to complex words. Complex words are polysyllabic, and are often made from other words and prefixes and suffixes. Some words are regular and follow common patterns, while other words are less regular, *e.g. 'beautiful'*, and conform less to common conventions, making them more difficult to spell. This is because they originate from a language other than English/Welsh (Beau-French).

### Spelling strategies

There are several techniques that learners can use to read and spell correctly. They include the following.

- **Graphic knowledge** – sequences of letters that occur often, *e.g. bread, beautiful.*

- **Morphology** – word structure where parts of a word have meaning, *e.g. prefixes (pre, meaning before, e.g. unclear, undeserving), suffixes added to the end of a word to change it's meaning, e.g. quickly, slowly.*
- **Segmenting** – breaking a word up into its parts, *e.g. un-like-ly.*
- **Roots** – base form of a word from which other words derive (i.e. **word derivation**), *e.g. unbelievable.*
- **Word families** – groups of words that have a common feature or pattern; they have some of the same combinations of letters in them and a similar sound, *e.g. brain, chain, complain*.

**consonant**

All letters of the alphabet except the vowels 'a', 'e', 'i', 'o', 'u'.

**Welsh-medium: consonant**

All letters of the alphabet except the vowels 'a', 'e', 'i', 'o', 'u', 'w', 'y'.

**prefix**

A group of letters added to the beginning of a word to change its meaning, *e.g. 'unclear'.*

**root word**

A word to which prefixes and suffixes may be added to make other words, *e.g. the root word is 'polite' in 'politely', 'impolite', 'politeness'.*

**suffix**

A group of letters added to the end of a word to change its meaning, *e.g. 'thought' to 'thoughtful' or 'walk' to 'walked'.*

## Punctuation

Punctuation is generally related to the grammar of a sentence and usually marks sections of a text.

**Apostrophe (')**

Used to show contraction/omission, *e.g. 'haven't'*, or possession, *e.g. 'the singer's voice'*.

**colon (:)**

Used to introduce a list, a second clause or a quotation that expands or illustrates the first clause.

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol
Mawrth 2013
Dogfen wybodaeth rhif: 120/2013

**comma (,)**

Used to separate parts of a sentence or list.

**exclamation mark (!)**

Used at the end of a sentence to show emotion such as shock, humour, joy, anger.

**full stop (.)**

Used to indicate the end of a sentence. A **capital letter** is used to mark the beginning of a sentence (or a proper noun).

**question mark (?)**

Used at the end of a sentence to show that it is a question.

**quotation marks (‘ ’) or single inverted commas**

Used to show a direct quotation from another text. Similar to **speech marks (“ ”) or double inverted commas** which are used to show direct speech in a text.

**semi-colon (;)**

Used to separate a clause or phrase in a sentence. It is stronger than a comma, but not as strong as a full stop.

# Atodiad 3: Rhestr o dermau rhifedd

Mae'r adran dermau hon yn canolbwyntio ar y termau a'r cysyniadau sy'n berthnasol i rifedd ac i'r FfLlRh safonau seiliedig ar berfformiad. Mae'n cynnwys rhai o'r termau mathemategol arbenigol sy'n ymddangos yn y safonau, ond nid pob un ohonynt.

**Amrediad (mewn cysylltiad â thrin data)**
Mesuriad o'r gwasgariad mewn ystadegau, h.y. y gwerth rhifol a gyfrifir drwy ganfod y gwahaniaeth rhwng y mwyaf a'r lleiaf mewn set o ddata rhifyddol.

**Brasamcan**
Yn cyfeirio at amcangyfrif, canlyniad neu wiriad nad yw'n fanwl gywir ond sy'n ddigon agos i fod yn ddefnyddiol mewn cyd-destun ymarferol.

**Canolrif**
Math o gyfartaledd. Y canolrif yw'r rhif neu'r gwerth sydd yn y canol o roi'r holl werthoedd mewn trefn, *e.e. canolrif 5, 6, 14, 15 a 44 yw 14*. Pan fydd nifer y gwerthoedd yn eilrif, caiff cymedr y ddau werth yn y canol ei gyfrifo, *e.e. canolrif 5, 6, 7, 8, 14 a 44 yw (7 + 8) ÷ 2 = 7.5*.

**Cilydd**
Yr hyn y lluosir gwerth ag ef er mwyn cael 1, *e.e. cliydd 4 yw ¼*.

**Cymedr**
Math o gyfartaledd wedi'i selio ar rannu'n gyfartal. Y cymedr yw cyfanswm y gwerthoedd wedi'u rhannu a'r nifer ohonynt, *e.e. cymedr 5, 6, 14, 15 a 45 yw (5 + 6 + 14 + 15 + 45) ÷ 5 = 17*.

**Cynhwysedd**
Dull o fesur maint hylifau.

**Cyfaint**
Mesuriad mewn gofod tri dimensiwn.

**Cyfartaledd**
Fe'i defnyddir weithiau'n gyfystyr â 'chymedr rhifyddol'. Bydd cyfartaledd yn cynnwys cymedr, canolrif a modd.

**Cyfrannedd**
Rhan o swm a ddisgrifir yn aml drwy ddefnyddio termau fel canran, ffracsiwn, degolyn a chymhareb.

**Cymhareb**
Cymhareb o niferoedd a ysgrifennir fel a:b, e.e. *cymysgedd sy'n cynnwys dau gynhwysyn mewn cymhareb 3:1 yw tair rhan o'r cynhwysyn cyntaf ac un rhan o'r ail gynhwysyn*.

**Data**

- **Data arwahanol**
  Data sy'n deillio o gyfrif eitemau neu ddigwyddiadau ar wahân, e.e. *nifer o bobl mewn gêm pêl droed*.
- **Data di-dor**
  Data lle gellir pennu unrhyw werth, e.e. *hyd, cynhwysedd, amser, tymheredd*.

**Ffracsiynau**

- **Ffracsiynau bondrwm**
  Mae'r rhifiadur (y rhif uchaf) yn llai na'r enwadur (y rhif isaf), e.e. *¼*.
- **Ffracsiynau pendrwm**
  Mae'r rhifiadur yn fwy na'r enwadur, e.e. $^7/_4$.
- **Rhifau cymysg**
  Rhif cyfan a ffracsiwn bondrwm gyda'i gilydd, e.e. *1¾*.

**Ffurf safonol**
Defnyddio pwerau 10 i gofnodi rhifau mawr iawn neu fach iawn, e.e. *gellir ysgrifennu 6 500 000 fel* $6.5 \times 10^6$ *a 0.000000321 fel* $3.21 \times 10^{-7}$.

**Graddfa**
Y gymhareb rhwng maint rhywbeth gwirioneddol a maint yr hyn sy'n ei gynrychioli.

**Grwpio data**
Trefnu llawer iawn o ddata yn grwpiau olynol nad ydynt yn gorgyffwrdd â'i gilydd, a'u trefnu i gyfyngau cyfartal, lle bo'n briodol.

**Gweithrediadau gwrthdro**
Gweithrediadau sy'n gwrthgyferbynnu y naill â'r llall, e.e. *adio a thynnu, lluosi a rhannu, sgwâr ac ail isradd*.

**Màs**
Mewn defnydd bob dydd, cyfeirir yn aml at màs fel pwysau, ac fe gymerir yn ganiataol mai'r unedau ar gyfer hynny yw kilogramau (*e.e. gall rhywun ddweud eu bod yn pwyso 75kg*). Mewn defnydd gwyddonol, fodd bynnag, mae'r term 'pwysau' yn cymryd grym disgyrchiant i ystyriaeth.

**Mesuriadau cyfansawdd**
Mae mesuriadau cyfansawdd yn cyfuno dau fesuriad o fath gwahanol, *e.e. cyflymder ar ffurf metrau yr eiliad, dwysedd poblogaeth ar ffurf nifer y bobl fesul cilometr sgwâr neu'r gyfradd o rediadau ar ffurf rhediadau fesul pelawd.*

**Modd**
Math o gyfartaledd. Y gwerth a geir yn fwyaf aml mewn set ddata, *e.e. modd 1, 8, 2, 2, 9, 3, 3, 3, 3, 7 yw 3*.

**Pictogram**
Ffordd o gynrychioli data. Defnyddir lluniau/symbolau/eiconau i gynrychioli gwrthrychau. Ar gyfer rhifau mawr, gall un symbol gynrychioli nifer o wrthrychau. Mae rhan o symbol yn cynrychioli cyfran o'r nifer.

**Priodol**
Yn addas ar gyfer y dasg, y cyd-destun a'r cymhlethdod. Drwy ddefnyddio 'priodol' yn y FfLlRh, cydnabyddir bod angen ymdriniaeth wahanol ar gyfer gwahanol gyd-destunau.

**Pwysau**
Gweler **Màs**.

**Rhifau cymysg**
Gweler **Ffracsiynau**.

**Rhifo**
(Gwneud) marciau rhifo i gynrychioli gwrthrychau sydd wedi cael eu cyfrif.

**Siâp cyfansawdd**
Gellir torri siapiau cyfansawdd yn siapiau syml ar wahân.

**Siart bar/graff bar**
Ffordd o gynrychioli data rhifiadol. Caiff amleddau eu cynrychioli gan farrau o led cyfartal a bydd hyd y barau'n cynrychioli'r amlderau. Gellir cyflwyno'r barrau'n fertigol neu'n llorweddol.

**Siart cylch**
Ffordd o gyflwyno data. Caiff cylch ei rannu'n sectorau a bydd maint y sectorau hynny'n cynrychioli cyfrannau priodol o'r data.

**Tabl**
Gwybodaeth, rhifau neu lythrennau wedi'u rhoi mewn trefn, fel arfer mewn rhesi a cholofnau.

**Tabl amledd**
Tabl ar gyfer cyfres o arsylwadau sy'n dangos pa mor fynych y ceir pob digwyddiad neu nifer.

**Talgrynnu**
Cyfleu nifer neu fesuriad hyd at y lefel ofynnol o gywirdeb, *e.e. 537 wedi'i dalgrynnu i'r 10 agosaf yw 540*.

**Trefn gweithrediadau**
Confensiwn o ddefnyddio gweithrediadau mewn trefn neilltuol. Dyma'r drefn honno:

Cromfachau
Pwerau/Indecsau
Lluosi a rhannu
Adio a thynnu

**Unedau safonol**
Unedau a gytunir drwy gymuned, *e.e. mae metr yn uned hyd safonol*. Mae unedau ansafonol, felly, yn rhai na cheir cytundeb eang ar eu cyfer, *e.e. cam, cwpanaid*.

# Atodiad 4: Dogfennau a dolenni cysylltiedig

*Rhaglen Llythrennedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/literacyprogramme/?skip=1&lang=cy

*Rhaglen Rhifedd Genedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2012)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/literacynumeracy/numeracyprogramme/?skip=1&lang=cy

*Y Fframwaith Sgiliau yng nghyfnod allweddol 2: Arfarniad o effaith y Framwaith Sgiliau anstatudol i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2* (Estyn, 2011)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/205541.7/Y%20Fframwaith%20Sgiliau%20yng%20nghyfnod%20allweddol%202%20-%20Gorffennaf%202011/?navmap=30,119,196?skip=1&lang=cy

*Y Framwaith Medrau yng nghyfnod allweddol 3: Arfarniad o effaith y fframwaith medrau anstatudol ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 3* (Estyn, 2012)
www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/245263.2/Arfarniad%20o%20effaith%20y%20Fframwaith%20Sgiliau%20anstatudol%20i%20ddysgwyr%203%20i%2019%20oed%20yng%20Nghymru%20yng%20nghyfnod%20allweddol%203%20-%20Mai%202012/?navmap=30,163?skip=1&lang=cy

*Ar Drywydd Dysgu map llwybrau* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/additionaleducationalneeds/routeslearning/?skip=1&lang=cy

*Asesu cynnydd mathemategol plant 5–14 oed mewn ysgolion yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012)
www.wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/latestresearch/childrenmathematical/?skip=1&lang=cy

*Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation_phase/foundationphasepractitioners/languageliteracy/;jsessionid=y501PQ1Hvb2x541qG8gfJvJ0YQKYB3xZrC1SVTv3tXZGZwLqpLYz!-863523534?skip=1&lang=cy

*Canllaw ar addysgu sgiliau ysgrifennu* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/higherorder/guidanceteachingskills/?skip=1&lang=cy

*Datblygu uwch sgiliau llythrennedd ar draws y cwricwlwm* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/higherorder/literacy/?skip=1&lang=cy

Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (Saesneg un unig)
www.ndcs.org.uk/professional_support/our_resources

Fframwaith Llythrennedd
a Rhifedd Cenedlaethol

Mawrth 2013

Dogfen wybodaeth rhif:
120/2013